

2024/25

# Adroddiad Effaith

Rhoi'r grym i bobl godi eu llais ac atal troseddu.

Hollol ddienw.
Bob tro.

CrimeStoppers.

Speak up. Stay safe.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 1 | Croeso gan ein Cadeirydd |
| 2 | Croeso gan ein Prif Swyddog Gweithredol |
| 3 | Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd |
| 4-5 | Cyflawni ein strategaeth |
| 6-7 | Achosion go iawn |
| 8 | Y flwyddyn mewn rhifau |
| 9-15 | Ysgogi gwybodaeth o ansawdd |
| 16-20 | Cysylltu â phob cymuned |
| 21-24 | Meithrin ymddiriedaeth a hyder |
| 25 | Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol |
| 26 | Uchafbwyntiau ariannol |
| 27 | Datganiad yr Archwilydd |
| 28 | Diolch i'n partneriaid a'n cefnogwyr |
| 29 | Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol |






# Bob blwyddyn, mae mwy o bobl yn cysylltu â Crimestoppers

Rydym yn cynnig ffordd ddiogel i bobl drosglwyddo gwybodaeth er mwyn diogelu eu cymunedau



**Arglwydd Ashcroft KCMG PC**
**Sylfaenydd a Chadeirydd Crimestoppers**

Dros y 12 mis diwethaf, mae Crimestoppers wedi cymryd camau arwyddocaol, gan sicrhau cynnydd o un flwyddyn i'r llall. Rydym yn parhau i gynorthwyo gweithgarwch gorfodi'r gyfraith, gan rymuso'r cyhoedd i godi eu llais a chadw'n ddiogel, mewn ffordd hollol ddienw.

Unwaith eto, mae staff ein canolfan gyswllt wedi rhagori yn eu rôl, gan gynnig clust ddibynadwy i wrando ar gyfer aelodau'r cyhoedd a'n partneriaid gwerthfawr, heb farnu.

Mae Crimestoppers yn helpu pawb sy'n dymuno aros yn ddienw wrth iddynt barhau i leisio eu pryderon a'u hamheuon ynghylch troseddu.

Er bod troseddu yn ein cymunedau yn effeithio ar bob un ohonom, nid yw pawb yn teimlo eu bod yn gallu siarad â'r heddlu, boed hynny oherwydd eu bod yn ofni y bydd rhywun yn dial arnynt, y ffaith nad ydynt yn dymuno mynd trwy'r llysoedd neu am resymau diwylliannol greddfol. A dyma gyfraniad Crimestoppers. Fel elusen annibynnol, rydym yn rhoi'r hyder i bobl godi eu llais trwy gynnig diogelwch iddynt y gallant wneud hynny mewn ffordd hollol ddienw, ac mae hwn yn addewid yr ydym wedi llwyddo i'w gadw trwy gydol y 37 mlynedd ers i ni gael ein sefydlu.

O'r alwad gyntaf i Crimestoppers ym 1988, i'r miloedd o alwadau a ffurflenni ar-lein a gyflwynir heddiw, mae gan bob darn o wybodaeth y byddwn yn ei gael rôl hanfodol i'w chyflawni wrth ddiogelu'r cyhoedd. Mae ein statws elusennol yn hanfodol gan ei fod yn cynnig yr hyder i bobl ymddiried yn ein gwasanaeth.

Mae cadw'n dawel yn cael effaith niweidiol enfawr: gan alluogi troseddwyr i fygwth diogelwch ein hanwyliaid a'n cymunedau, a chan ganiatáu i fwy o droseddwyr ffynnu, ac achosi niwed a difrod sylweddol i gymdeithas. Trwy godi ein llais, gallwn gynorthwyo'r heddlu gyda'u hymchwiliadau a'u helpu i sicrhau cyfiawnder ar gyfer dioddefwyr troseddu.

Mae ein rhwydwaith o staff a gwirfoddolwyr ar draws y DU a'n cyfoeth o bartneriaid, gan gynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yr heddlu, elusennau a busnesau, yn hanfodol wrth ddarparu ein gwasanaeth adrodd dienw unigryw.

Ni fyddai unrhyw ran o hyn yn bosibl heb ein buddiolwyr – y cyhoedd – sy'n dewis codi eu llais a dweud wrthym yr hyn y maent yn ei wybod, er gwaethaf yr amgylchiadau anodd y maent yn eu hwynebu efallai. Bob dydd, bydd miloedd o bobl yn cysylltu â ni, gan wneud dewis cadarnhaol i wneud y peth iawn – a diolchwn iddynt am eu hagwedd gymwynasgar ac am gael y dewrder i godi eu llais.

Mae gan bawb, waeth pwy ydynt neu ble bynnag y maent yn byw, yr hawl i deimlo eu bod yn ddiogel rhag troseddu.

Croeso gan ein Prif Swyddog Gweithredol

# Mae Crimestoppers yn cynnig gobaith i gymunedau

Rydym yn cynnig ffordd i holl aelodau cymuned drosglwyddo gwybodaeth am droseddu mewn ffordd ddienw.



**Mark Hallas OBE**
Prif Weithredwr,
Ymddiriedolaeth Crimestoppers

Mae'n bleser gennyf adrodd bod bron i filiwn o bobl – 922,861 – wedi cysylltu â Crimestoppers yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Trosglwyddwyd dros 220,000 o adroddiadau o ansawdd uchel i asiantaethau gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau partner. Mae hon yn record sy'n tanlinellu'r ymddiriedaeth gynyddol sydd gan y cyhoedd yn Crimestoppers, a chyrhaeddiad cynyddol ein gwaith ar draws y DU.

Mae ein statws fel elusen a'n haddewid i gadw pobl yn ddienw yn parhau i fod yn hanfodol wrth annog pobl i adrodd yr hyn y maent wedi'i weld, yr hyn y maent wedi'i glywed neu'r hyn y maent yn ei wybod – gan helpu i atal troseddu heb unrhyw risg i'r unigolyn.

Mae partneriaethau Crimestoppers gyda sefydliadau masnachol yn faes twf allweddol. Mae ein partneriaid yn cael gwybodaeth hanfodol benodol sy'n helpu i ddiogelu eu gweithwyr, eu cwsmeriaid a'u hasedau.

Rydym yn gwerthfawrogi ein holl bartneriaid yn fawr, boed yn rhai statudol, masnachol neu elusennol. Rydym wedi gwneud mwy fyth eleni trwy weithio gyda phartneriaid a sefydliadau i sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed ac i hybu ein negeseuon.

Hoffwn ategu diolch Arglwydd Ashcroft i bawb sydd wedi defnyddio neu gynorthwyo ein gwasanaethau. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar rwydwaith eang o bartneriaethau – o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs), heddluoedd, y Swyddfa Gartref, darparwyr tai, cyrff masnachol, brandiau mawr, i elusennau eraill. Rydym yn falch o weithio gyda sefydliadau sy'n rhannu ein hymrwymiad i ddatblygu cymunedau mwy diogel.

Rydym yn parhau i gael ein tywys gan flaenoriaethau'r Swyddfa Gartref; o Drais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) i drais difrifol, i ymgyrchoedd troseddau cyllyll. Rydym yn mireinio ac yn gwella ein cynnig i'r cyhoedd ymhellach er mwyn darparu ystod eang o offerynnau er mwyn addysgu unigolion a'u cymunedau. Fel y mae'r heddlu, PCCs ac eraill yn cydnabod, mae taith arwyddocaol o'n blaenau.

Rydw i'n falch bod Crimestoppers yn cyflawni ei rhan, gan wneud yr hyn yr ydym yn rhagori ynddo: cynnig dewis diogel i'r cyhoedd godi eu llais am droseddu mewn ffordd hollol ddienw. Er fy mod yn eithriadol o falch o'n gwaith, rydw i'n cydnabod bod wastad mwy y gallwn ei wneud.

**Diolch am eich cymorth parhaus.**



# Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

## Gweledigaeth – pam ein bod yn bodoli

Mae gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw.

## Cenhadaeth – yr hyn a wnawn i gyflawni ein gweledigaeth

Rydym yn elusen annibynnol sy'n rhoi'r grym i chi godi eich llais ac atal troseddu mewn ffordd hollol ddienw.

Pwy bynnag ydych chi, ble bynnag yr ydych yn byw, o gymunedau i gwmnïau.

Dros y ffôn ac ar-lein, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn.

Rydym yn rhannu cyngor hefyd ynghylch sut i ddiogelu'r bobl a'r cymunedau yr ydych yn ymboeni amdanynt rhag troseddu, fel y gall pawb deimlo'n ddiogel.

## Gwerthoedd – yr egwyddorion sy'n tywys y ffordd yr ydym yn ymddwyn

Yn Crimestoppers, credwn mai pobl sy'n rhoi stop ar droseddu. Mae ein cymuned o staff a gwirfoddolwyr yn byw ein gwerthoedd bob dydd:

- **Rydym yn ymboeni** – credwn bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw. Gall troseddu beri cryn ofn, felly rydym yn cynnig gobaith.
- **Rydym yn gynhwysol** – nid ydym yn barnu pobl. Rydym yma i bawb y mae ein hangen arnynt. Gallwn newid cymunedau er gwell trwy gydweithio.
- **Gellir ymddiried ynom** – rydym yn elusen ddibynadwy, gonest ac annibynnol. Rydym yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol ac nid ydym fyth yn datgelu manylion unrhyw un sy'n cysylltu â ni.
- **Rydym yn benderfynol** – rydym yn ymrwymo ein holl ymdrechion i sicrhau newid cadarnhaol. Rydym yn credu yn ein gallu i gyflawni.

## Ein rôl

Rydym yn chwalu'r rhwystrau sy'n tawelu pobl a chymunedau trwy gynnig lle amgen i bobl, a lle y gallant ymddiried ynddo, i gyfleu gwybodaeth am droseddu heb unrhyw edliw. Mae'r wybodaeth y byddwn yn ei chael ac yn ei throsglwyddo yn sicrhau y caiff bywydau eu hachub, bod troseddwyr yn cael eu stopio, a bod dioddefwyr a'u hanwyliaid yn cael cyfiawnder.

## Ein heffaith

Bob blwyddyn, rydym yn helpu i ddatrys ac atal miloedd o droseddau.



**922,861**

Cysylltodd bron i filiwn o bobl â ni y llynedd.



**227,326**

Anfonom dros 227,000 darn o wybodaeth at yr heddlu.



**33,019**

Ac anfonom ragor o wybodaeth at ystod eang o bartneriaid statudol, masnachol a thrydydd sector eraill.



**26,135**

Mae'r heddlu yn dweud wrthym ein bod wedi helpu i ddatrys ac atal dros 26,000 o droseddau. Gan nad yw'r holl heddluoedd yn cynnig adborth cynhwysfawr, gallwn amcangyfrif bod ein heffaith gymaint dwywaith â hyn a mwy.




# Crimestoppers – sicrhau canlyniadau a meithrin ymddiriedaeth...

... bob tro mewn ffordd hollol ddienw. Yn ystod 2024-2025, mae ein strategaeth wedi sicrhau canlyniadau gwell nag erioed o'r blaen, wedi'i ysgogi gan arloesedd, partneriaeth a ffocws ar y rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan droseddu.



Cyflawni ein strategaeth

## Gwella ansawdd a chyrhaeddiad gwybodaeth

Eleni, rydym wedi gweld cynnydd nodedig yng nghyfanswm ac ansawdd y wybodaeth a gawsom gan y cyhoedd. Unwaith eto, trosglwyddwyd dros 227,000 o adroddiadau o ansawdd uchel i asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Mae'r twf hwn yn adlewyrchu ein hymdrechion parhaus i'w gwneud yn haws ac yn fwy diogel i bobl rannu'r hyn y maent yn ei wybod, yn aml pan fyddant yn teimlo na allant droi at yr heddlu yn uniongyrchol. Mae ein haddewid i gadw pobl yn ddienw yn parhau i fod yn elfen ganolog, gan annog unigolion i gysylltu heb iddynt ofni y bydd rhywun yn dial arnynt.

Nid yn unig y mae ein gwybodaeth yn cyrraedd yr heddlu, ond mae hefyd yn cael ei rhannu gyda rhwydwaith cynyddol o bartneriaid statudol, masnachol a thrydydd sector. Mae'r dull gweithredu cydweithredol hwn wedi arwain at ddatrys neu atal dros 26,000 o droseddau, er bod y gwir effaith yn debygol o fod yn llawer uwch o ganlyniad i adborth anghyflawn gan bob llu.

> **"Mae ein haddewid i gadw pobl yn ddienw yn parhau i fod yn elfen ganolog, gan annog unigolion i gysylltu heb iddynt ofni y bydd rhywun yn dial arnynt"**

## Meithrin ymddiriedaeth a hyder

Ymddiriedaeth yw sylfaen ein gwasanaeth. Ers i ni gael ein sefydlu ar ddiwedd y 1980au, mae miliynau wedi dibynnu ar Crimestoppers i drin eu gwybodaeth mewn ffordd ofalus a gyda disgresiwn. Eleni, roedd dros 2,500 o bobl wedi cysylltu â ni bob dydd, gan ddewis Crimestoppers fel y ffordd ddelfrydol iddyn nhw o adrodd am droseddu. Rydym yn parhau i rannu ein stori o obaith, gan ddangos bod codi llais yn gallu newid bywydau a chymunedau er gwell.

Mae ein hymgyrchoedd wedi cyflawni rôl hanfodol wrth feithrin yr ymddiriedaeth hon. Er enghraifft, mae ein mentrau wedi'u targedu mewn rhanbarthau allweddol – megis ymgyrchoedd Clear, Hold, Build yng Ngorllewin Swydd Efrog, Swydd Derby, Swydd Stafford a Llundain – wedi arwain at gannoedd o adroddiadau y gweithredwyd yn eu cylch, gan arwain at arestiadau, atafaelu cyffuriau ac arfau, a diogelu unigolion agored i niwed.

> **"Rydym yn parhau i rannu ein stori o obaith, gan ddangos bod codi llais yn gallu newid bywydau a chymunedau er gwell"**

## Canolbwyntio ar y cymunedau sydd yn yr angen mwyaf

Mae canolbwyntio ar y cymunedau sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan droseddu yn un o bileri craidd ein strategaeth. Rydym wedi teilwra ein gwaith allgymorth ar gyfer grwpiau sy'n llai tebygol o droi at yr heddlu, gan gydweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, darparwyr tai, grwpiau ffydd, a gwasanaethau iechyd. Cynlluniwyd ein hymgyrchoedd i chwalu rhwystrau, gan sicrhau bod gan bawb lais yn y frwydr yn erbyn troseddu.

Mae astudiaethau achos o fywyd go iawn yn amlygu'r gwahaniaeth y mae hyn yn ei wneud. O helpu i ddal llofrudd a oedd wedi ffoi i darfu ar droseddu cyfundrefnol a diogelu plant sydd mewn perygl, mae'r straeon y byddwn yn eu cael – sydd wastad yn rhai dienw – yn dangos effaith go iawn ein gwaith.

## Arloesedd a phartneriaeth

Yn ystod 2024, cyflwynwyd y Gwasanaeth Adrodd Cenedlaethol yn erbyn Llygredigaeth a Cham-drin yn yr Heddlu, yn dilyn peilot llwyddiannus yn Llundain. Bellach, y gwasanaeth hwn, a gaiff ei redeg gan Crimestoppers, yw'r darparwr sy'n cael ei ffafrio fel sianel adrodd ddienw ac annibynnol. Ehangwyd ein gwaith gyda phartneriaid masnachol hefyd, gan helpu busnesau i ddiogelu eu staff, eu cwsmeriaid a'u hasedau.

Rydym hefyd wedi parhau i gynorthwyo Llu'r Ffiniau, gan arwain at atafaelu nwyddau ffug, arian heb ei ddatgelu a thybaco anghyfreithlon – tystiolaeth bellach o effaith eang y wybodaeth yr ydym yn ei chael.

## Cynnal ein cenhadaeth

Mae ein tîm Datblygu Busnes wedi sicrhau canlyniadau rhagorol, gan sicrhau cronfeydd hanfodol i gynorthwyo ein gweithrediadau sy'n tyfu. Mae pob punt a godir yn ein galluogi i ymestyn yn ddyfnach i gymunedau a buddsoddi mewn technolegau ac ymgyrchoedd newydd sy'n gwneud y broses o adrodd am droseddu yn fwy hygyrch fyth.

## Edrych ymlaen

Wrth i ni fyfyrio am y flwyddyn ddiwethaf, mae'n amlwg bod ein strategaeth yn gweithio. Trwy ganolbwyntio ar wybodaeth o ansawdd, meithrin ymddiriedaeth, blaenoriaethu'r cymunedau sy'n cael eu heffeithio fwyaf, a meithrin partneriaethau cadarn, rydym yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i addasu ac esblygu, gan sicrhau bod Crimestoppers yn parhau i fod yn hafan gobaith a diogelwch i bawb.

Gyda'n gilydd, rydym yn chwalu'r tawelwch ynghylch troseddu – un adroddiad dienw ar y tro.



# Gwneud gwahaniaeth

## Straeon gwir, dienw

### Gwybodaeth yn arwain at arestio unigolyn ym Mryste am drais domestig

Arweiniodd hyn at arestio unigolyn ar unwaith am gyflawni troseddau trais domestig, gan helpu i ddiogelu'r dioddefwr a chan amlygu pwysigrwydd adrodd gan y gymuned.

### Arestio unigolyn dan amheuaeth o gyflawni ymosodiad creulon yn Middlesbrough

Roedd gwybodaeth a ddarparwyd i'r heddlu gan Crimestoppers wedi cynorthwyo wrth arestio unigolyn peryglus iawn a oedd wedi bod yn gysylltiedig â lladrad a thrais.

### Arestio unigolyn am yrru dan ddylanwad alcohol a chyffuriau

Arweiniodd gwybodaeth a roddwyd gan Crimestoppers i'r heddlu at gynnal prawf cadarnhaol wrth ymyl y ffordd a chyhuddiadau troseddol, gan helpu i leihau nifer y digwyddiadau gyrru peryglus.

### Darganfod gweithgarwch tyfu canabis yn Swydd Aberdeen

Roedd y safle yn dangos arwyddion o'r ffaith ei fod yn cael ei ddefnyddio, gyda ffaniau yn cael eu defnyddio'n ddi-baid, ac roedd arogl canabis cryf yn dod o'r lle. Atafaelwyd planhigion canabis yr oeddent yn werth tua £1 miliwn, ac arestiwyd ac erlynwyd dau unigolyn.

### Adroddiad dienw am ddyn yr oedd ganddo fwa croes wedi'i lwytho

Ar ôl cael gwybodaeth gan Crimestoppers, ymatebodd yr heddlu yn ddi-oed, gan ddal yr unigolyn dan amheuaeth. Wrth ei ddal, daeth y swyddogion o hyd i rai arfau – a beic cwad a oedd wedi cael ei ddwyn hefyd.

### Dod o hyd i ddyn dan amheuaeth o ymosod ar rywun, diolch i wybodaeth gymunedol

Roedd dyn dan amheuaeth yn ei 30au yn teithio o Ewrop i'r DU pan wnaeth rhywun ei weld ar fferi a oedd wedi cyrraedd Portsmouth. Daethpwyd o hyd iddo yn fuan ar ôl iddo lanio a'i ddal cyn iddo allu osgoi cyfiawnder. Mae'r achos hwn yn amlygu'r rôl hanfodol a gyflawnir gan wybodaeth amserol gan y gymuned er mwyn galluogi'r heddlu i ddod i hyd i droseddwyr yn gyflym, a'u dal.

### Arestio unigolyn dan amheuaeth o gyflawni trais domestig

Roedd ymddygiad treisgar yr unigolyn dan amheuaeth wedi gwaethygu, gan arwain at anafiadau, ac roedd wedi defnyddio tactegau rheoli megis rheoli cyfrif banc a ffôn y dioddefwr, a chanslo apwyntiadau meddygol. Arestiwyd yr unigolyn dan amheuaeth am ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol.

Mae hyn yn dangos sut y mae gwybodaeth wedi'i thargedu yn galluogi'r heddlu i ymyrryd yn gyflym mewn achos cam-drin domestig cymhleth.


### Unigolyn dan amheuaeth o lofruddio rhywun yn cael eu harestio cyn teithio ar awyren i Dde Ddwyrain Asia

Roedd adroddiad dienw wedi datgelu bod dyn yn bwriadu lladd ei bartner ar ôl clywed ei bod hi wedi bod yn anffyddlon. Roedd y wybodaeth yn awgrymu bod yr unigolyn dan amheuaeth yn bwriadu sicrhau arfau er mwyn cyflawni'r ymosodiad. Ymatebodd asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn gyflym, gan ddod o hyd i'r dyn a'i arestio am fod ym meddiant arf tanio. Ar ôl ei arestio, gweithredwyd mesurau diogelu er mwyn sicrhau diogelwch y fenyw.

Mae'r achos hwn yn dangos sut y gall ymdrechion cymunedol a gwybodaeth helpu i leoli a dal unigolion sydd dan amheuaeth o fod yn gysylltiedig ag ymchwiliadau troseddol difrifol cyn iddynt adael y wlad.

### Atafaelu planhigion canabis a oedd yn werth £275,000 yn Scunthorpe

Roedd y safle yn gysylltiedig â gweithgarwch delio cyffuriau parhaus, wrth i gerbydau gyrraedd a gadael gyda bagiau mawr o ganabis. Cyhoeddwyd gwarant gan yr Awdurdodau, a llwyddwyd i atafaelu tua 500 o blanhigion canabis, yr oeddent yn werth tua £275,000, gan arestio tri unigolyn.



> "Mae'r achos hwn yn dangos sut y gall ymdrechion cymunedol a gwybodaeth helpu i leoli a dal unigolion sydd dan amheuaeth o fod yn gysylltiedig ag ymchwiliadau troseddol difrifol cyn iddynt adael y wlad"

### Datgelu camdriniaeth plant a oedd yn guddiedig, diolch i wybodaeth

Ar ôl ei archwilio, darganfu swyddogion eiddo a oedd yn cael ei esgeuluso – amodau aflan, gyda baw 12 cath a oedd yn byw yno wedi'i wasgaru ar draws y safle. Roedd arogl cryf wrin yno, a chlêr ar y waliau.

Roedd modd gweld arwyddion cam-drin corfforol ar y plant, a oedd yn un oed, yn ddwy oed ac yn dair oed, gan gynnwys cleisiau ar eu breichiau a'u coesau, ac roeddent yn ymddangos fel pe baent heb gael digon o faeth, ac roedd hyn wedi codi pryderon ar fyrder am eu diogelwch a'u lles.

Fe'u tynnwyd o'r amgylchedd yn gyflym a'u rhoi yng ngofal aelod o'r teulu, gan bod yr awdurdodau yn ymroddedig i sicrhau eu diogelwch a sicrhau bod y rhai a oedd yn gyfrifol yn atebol.

Ebrill 2024 – Mawrth 2025

# CrimeStoppers. Uchafbwyntiau



## Effaith Crimestoppers

**922,861**
o bobl wedi cysylltu â ni yn ddienw

**227,326**
o adroddiadau dienw wedi'u hanfon at heddluoedd

**82%**
ar-lein

**18%**
dros y ffôn

**i fyny 6%**
o'i gymharu â'r sefyllfa y llynedd

## Adborth Crimestoppers

**1,457**
o droseddwyr wedi'u harestio a'u cyhuddo

**26,135**
o ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas â throseddu ar gyfer yr heddlu

**£365,134**
Gwerth yr eiddo a adferwyd

**£45,556,521**
Cyfanswm gwerth y cyffuriau 'ar y stryd''

## Ymgyrchoedd cenedlaethol a rhanbarthol

**10**
Cenedlaethol

**9**
Datblygu Busnes

**128**
Rhanbarthol

**147**
Cyfanswm



## Sylw yn y cyfryngau

**7,156**
darn o sylw

fearless
Part of Crimestoppers

Cynhaliwyd **110**
o sesiynau proffesiynol

Llwyddwyd i gyrraedd
**2,854**
o weithwyr proffesiynol

Darparwyd **1,473**
o weithdai (i bobl ifanc)

Llwyddwyd i gyrraedd
**52,588** o bobl ifanc
(trwy bob llwybr, e.e. gweithdai, gwasanaethau, digwyddiadau cymunedol ac ati)

**764**
o orchmynion adnoddau

Cynhaliwyd **57**
o ymgyrchoedd

Cynnydd o **74%** yn nifer yr adroddiadau i Fearless o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol








# Ceisio'r gorau ar gyfer Canolfan Gyswllt genedlaethol Crimestoppers

Bu Graeme Sibley, Rheolwr Dyletswydd Crimestoppers, a Kelly Jackson o'r Tîm Pobl, Rheoli a Datblygu, yn falch o gynrychioli Crimestoppers mewn ffair swyddi a fynychwyd gan nifer dda o bobl ac a gynhaliwyd yn Stadiwm Parc Selhurst, cartref Clwb Pêl-droed Crystal Palace. Bu'r digwyddiad yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd sy'n chwilio am waith, gan hyrwyddo swyddi gwag presennol a chenhadaeth ehangach Crimestoppers.

### Ymgysylltu ar unwaith a diddordeb cyson

O fewn deng munud i'r drysau yn agor, roedd ymwelwyr yn heidio i'n stondin. Gwelwyd y lefel ymgysylltu uchel hon yn parhau'n gyson am y ddwy awr a hanner nesaf, gan adlewyrchu momentwm cryf a brwdfrydedd y dorf.

Bu Graeme a Kelly yn ffodus o gael eu cynorthwyo yn ystod y cyfnod prysuraf gan Steve Mann, Cyfarwyddwr Cyllid. Bu ei gyfraniad ef yn allweddol wrth iddo ymgysylltu ag ymwelwyr, ateb cwestiynau a rhannu ei ddirnadaeth ynghylch diben yr elusen a'r rolau sydd ar gael. Roedd y dull cydweithredol hwn wedi ein helpu i gysylltu â darpar ymgeiswyr mewn ffordd fwy effeithiol.

### Ffocws ar rolau allweddol: asiant ateb galwadau 24 awr

Y brif rôl yr oeddem yn recriwtio amdani oedd Asiant Ateb Galwadau 24/7. Roedd y swydd hon wedi sicrhau cryn sylw, yn enwedig ymhlith pobl yr oeddent yn chwilio am rôl ystyrlon gyda phwrpas. Roedd dros hanner cant o'r rhai a oedd wedi mynychu wedi mynegi diddordeb yn y rôl i Graeme a Kelly, ac roedd pob un ohonynt wedi nodi eu manylion cyswllt er mwyn i ni allu cysylltu â nhw.

### Estyn allan ar ôl y digwyddiad a phenodiadau llwyddiannus

Ar ôl y digwyddiad, arweiniodd Kelly y broses o estyn allan i ymgeiswyr oedd â diddordeb, gan gasglu CVs a threfnu cyfweliadau. O ganlyniad, mae tri a fynychodd y ffair wedi ymuno â Crimestoppers fel Asiantiaid Ateb Galwadau. Mae'r canlyniad hwn yn tanlinellu effeithiolrwydd gweithgarwch ymgysylltu uniongyrchol yn ystod digwyddiadau o'r fath, gan amlygu gwerth strategaethau recriwtio rhagweithiol. Yn ogystal, mae recriwtio trwy gyfrwng y sianelau hyn yn cynnig manteision ariannol trwy osgoi ffioedd asiantaethau, sy'n gallu cyfateb â 10-20% o gyflog Asiant Ateb Galwadau yn ystod eu blwyddyn gyntaf.

Yr hyn a wnaeth yr argraff fwyaf oedd menter a chymhelliant amlwg y sawl a oedd wedi mynychu. Nid yn unig yr oedd yr egni, y chwilfrydedd a'r didwylledd a ddangosont yn ystod y digwyddiad wedi ei wneud yn ymdrech recriwtio lwyddiannus, ond bu'n brofiad ysbrydoledig a dyrchafol i'n tîm.

Bu'r digwyddiad hwn yn gyfle gwerthfawr i hyrwyddo ein diben, ein gwasanaethau, a'r effaith gadarnhaol yr ydym yn ei chael ar draws y DU – gan wella ein presenoldeb cyhoeddus a chryfhau cysylltiadau cymunedol.

Mae Crimestoppers yn bwriadu cynnwys cymryd rhan mewn ffeiriau swyddi a digwyddiadau tebyg yn y dyfodol yn ei strategaeth recriwtio barhaus. Nod y dull gweithredu hwn, yn unol â gwaith adolygu rheolaidd a gwelliant parhaus, yw denu unigolion sy'n meddu ar gymhelliant a gwella cyfraddau cadw staff yn y Ganolfan Gyswllt.

# Panel Ieuenctid Fearless: sicrhau bod llais pobl ifanc wrth wraidd popeth a wnawn

Mae Panel Ieuenctid Fearless yn cyflawni rôl allweddol yn natblygiad ein gwaith trwy gynnig lle i bobl ifanc siarad yn agored am droseddu; sut y mae'n effeithio arnynt a'u cymheiriaid, a'r hyn y gallwn ei wneud, ynghyd â'u helpu i deimlo'n fwy diogel. Mae'r panel yn cynnwys 15 o bobl ifanc rhwng 13 ac 17 oed, ac mae eu dirnadaeth nhw yn dylanwadu ar ein cynnwys ar gyfryngau cymdeithasol a'n hymgyrchoedd atal troseddu, gan sicrhau bod pobl yn gallu uniaethu â nhw a'u bod yn effeithiol i'n cynulleidfa ifanc. Gyda chymorth ein panel ieuenctid, rydym yn codi ymwybyddiaeth o'n gwasanaeth adrodd hollol dienw, ac yn grymuso mwy o bobl ifanc i godi eu llais yn erbyn troseddu.

Roedd cyd-greu'r gwaith celf ar gyfer ymgyrch ddigidol a gynhaliwyd ar Snapchat, Instagram, a Spotify, yn uchafbwynt eleni.

**Canlyniadau'r ymgyrch:**

**865,904**
Cyrhaeddiad (Nifer y defnyddwyr unigryw a welodd yr hysbysebion)

**16,598,838**
Argraffiadau (Sawl gwaith y dangoswyd yr hysbysebion)

**72,665**
Ymgysylltu (Sawl gwaith y sweipiwyd/cliciwyd ar ddolen)




## Stori Sim

Mae Sim yn aelod ymroddedig o'n Panel Ieuenctid. Mae wedi bod yn gwneud hyn ers dwy flynedd ac mae'n arwain trafodaethau yn ystod cyfarfodydd ar-lein a sgyrsiau grŵp yn gyson, gan ysbrydoli eraill gyda'i hyder a'i brwdfrydedd. Mae ei dealltwriaeth ddofn o genhadaeth Fearless a'i hangerdd dros gynorthwyo pobl ifanc i'w weld yn glir ym mhob cyfraniad.

Mae dirnadaeth ystyrlon Sim o ddelweddau, iaith a thueddiadau presennol wedi helpu i siapio cynnwys perthnasol a diddorol ar draws platfformau gan gynnwys Snapchat, TikTok ac Instagram. Yn ogystal, mae hi wedi creu sawl fideo sy'n cyfleu negeseuon allweddol am atal troseddu, gan gynyddu cyrhaeddiad ac effaith Fearless.

Heb os, mae ei chyfraniad hi wedi meithrin ei sgiliau creadigol a chyfathrebu, a'i pharatoi ar gyfer cyfleoedd yn y dyfodol. Mae ymroddiad Sim yn dangos sut y gall pobl ifanc ddylanwadu ar newid cadarnhaol a chryfhau mentrau diogelwch cymunedol.



> **"Bu'r profiad yn hynod werthfawr i mi. Rydw i wedi gallu cael cyswllt gyda phobl ar draws y wlad, meithrin mwy o hyder wrth godi fy llais a bod yn fwy dewr wrth leisio'r hyn yr wyf yn ei gredu"**





# Ymgyrch yn amlygu peryglon eithafol tynnu canabis

Ym mis Chwefror 2025, lansiodd Crimestoppers fenter newydd yn ardal Northumberland a Tyne & Wear i amlygu'r peryglon difrifol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu crynodiadau canabis yn anghyfreithlon. Nod yr ymgyrch oedd hysbysu'r cyhoedd o risgiau cynhyrchu cynhyrchion fel olew mêl bwtan (BHO) a '*shatter*', a ddefnyddir yn aml mewn dyfeisiau fepio ac eitemau bwytadwy.

Mae tynnu canabis yn golygu defnyddio toddyddion fflamadwy iawn fel bwtan a nwy propan i greu ffurfiau canabis crynodedig. Mae'r prosesau hyn yn beryglus iawn; gall eu trin mewn ffordd anghywir neu wreichion damweiniol – fel troi switsh golau ymlaen, defnyddio ffynhonnell gwres neu blygio dyfais i mewn – arwain at ffrwydradau trychinebus. Gall digwyddiadau o'r fath achosi anafiadau difrifol neu



farwolaeth, gan effeithio ar y rhai sy'n cynhyrchu'r sylweddau a hefyd, pobl ddiniwed sy'n digwydd bod gerllaw.

Ym mis Mai 2025, carcharwyd dyn am 14 mlynedd oherwydd bod ei ffatri canabis anghyfreithlon wedi ffrwydro mewn bloc o fflatiau, gan ladd Archie York, a oedd yn saith oed.

Hysbyswyd aelodau'r cyhoedd o'r arwyddion i gadw golwg amdanynt, fel niferoedd mawr o duniau nwy bwtan neu bropan ac offer dur gwrthstaen anarferol a osodir mewn tai neu fflatiau.

Nid yn unig yr oedd yr ymgyrch hwn wedi codi ymwybyddiaeth eang o'r risgiau difrifol y mae'r rhai sy'n cynhyrchu BHO a *shatter* yn eu hwynebu, ond hefyd, roedd yn gyfle i aelodau'r cyhoedd drosglwyddo gwybodaeth am y drosedd beryglus hon, gan wybod y byddent yn aros yn hollol ddienw ac na fyddai angen iddynt fyth ddarparu unrhyw fanylion personol.

## Straeon gwir yn datgelu sut y mae Crimestoppers yn helpu i roi stop ar yrru dan ddylanwad cyffuriau ac yfed a gyrru

Mewn ymgyrch a gynhaliwyd yn ddiweddar i geisio trechu yfed a gyrru a gyrru dan ddylanwad cyffuriau, pwysleisiodd Crimestoppers bwysigrwydd cynnwys y gymuned yn yr ymdrech i gadw ein ffyrdd yn ddiogel, gan amlygu sut y mae gwybodaeth ddienw gan y cyhoedd wedi arwain at arestiadau arwyddocaol ac atafaeliadau, gan ddangos effaith bwerus codi llais.

Roedd un achos yn ymwneud â gyrrwr, y darganfuwyd ei fod yn gyrru heb yswiriant, ei fod wedi cael ei wahardd rhag gyrru, ei fod dan ddylanwad alcohol a'i fod wedi rhoi manylion ffug. Roedd gwybodaeth a roddwyd i Crimestoppers wedi cymell archwiliadau gan yr heddlu, gan ddatgelu manylion go iawn y gyrrwr. Arestiwyd y gyrrwr wedi hyn.

Mewn digwyddiad arall, stopiwyd gyrrwr a oedd yn aml yn gyrru dan ddylanwad cyffuriau gan yr heddlu ar ôl cael adroddiadau gan y cyhoedd. Roedd prawf poer wedi cadarnhau ei ddefnydd o ganabis, ac roedd archwiliadau pellach wedi darganfod bod cocên a chanabis yn y cerbyd. Aethpwyd a'r gyrrwr hwn i'r ddalfa, a chafodd ei atal rhag peryglu bywydau ar y ffordd. Mae'r straeon hyn yn tanlinellu rôl hanfodol cymunedau ar eu gwyliadwriaeth wrth fynd i'r afael ag yfed a gyrru a gyrru dan ddylanwad cyffuriau. Trwy adrodd am ymddygiad amheus, gall aelodau'r cyhoedd helpu i achub bywydau a dwyn gyrwyr diofal o flaen eu gwell.

Mae'r wybodaeth y mae Crimestoppers yn ei chael yn helpu i wneud ein ffyrdd yn fwy diogel i bawb.

# Diwrnod o weithredu yn Garston er mwyn annog preswylwyr Glannau Mersi i adrodd am droseddu

Lansiodd Crimestoppers ymgyrch yn ardal Garston, Glannau Mersi, er mwyn annog preswylwyr i adrodd am droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd y fenter yn cynnwys cydweithio gydag asiantaethau partner, gan gynnwys Cyngor Dinas Lerpwl, Gwasanaeth Tân ac Achub Glannau Mersi, ysgolion lleol, a darparwyr tai.

Fel rhan o'r ymgyrch, gosodwyd arwyddion Crimestoppers newydd ar draws yr ardal er mwyn hyrwyddo adrodd yn ddienw. Cefnogwyd yr ymdrech gan ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu a thrwy ddosbarthu taflenni i breswylwyr, gan geisio codi ymwybyddiaeth o wasanaeth dienw Crimestoppers ac annog y gymuned i rannu gwybodaeth am droseddau fel delio cyffuriau, troseddau cyllyll, gangiau troseddol, ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

I nodi lansiad yr ymgyrch, trefnodd yr heddlu ac asiantaethau partner ddiwrnod gweithredu cymunedol yn Garston, a fynychwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Emily Spurrell, a chynrychiolwyr Cyngor Dinas Lerpwl, Heddlu Glannau Mersi a Gwasanaeth Tân ac Achub Glannau Mersi.

Yn ystod y lansiad, pwysleisiodd Arolygydd Steve Reilly bwysigrwydd cynnwys y gymuned, gan nodi bod cydweithio gyda phreswylwyr a phartneriaid yn hanfodol er mwyn tarfu ar ac atal troseddu. Amlygodd bod gwybodaeth gan y gymuned yn helpu'r heddlu i ddatrys troseddau, diogelu unigolion agored i niwed, a dwyn troseddwyr gerbron eu gwell. Nododd hefyd pam bod partneru gyda Crimestoppers yn hanfodol, oherwydd efallai y bydd rhai preswylwyr yn teimlo'n anghyffyrddus wrth adrodd i'r awdurdodau yn uniongyrchol, ac mae Crimestoppers yn cynnig sianel adrodd ddienw.

Yn ystod y flwyddyn cyn lansio'r ymgyrch, cafodd Crimestoppers dros 8,000 o adroddiadau dienw o ardal Glannau Mersi, gan arwain at arestiadau, atafaelu cyffuriau ac arfau, a diogelu pobl agored i niwed.

Yn gyffredinol, nod yr ymgyrch yn Garston oedd meithrin cymuned sy'n fwy diogel trwy annog preswylwyr i godi eu llais heb ofni, gan wybod eu bod yn gallu rhoi gwybodaeth ac aros yn hollol ddienw.


Garston, Glannau Mersi








# Ymgyrch yn helpu i ddiogelu preswylwyr gwledig agored i niwed rhag troseddu



Yn ystod yr hydref 2024, cydweithiodd sawl heddlu ar draws gogledd Lloegr i lansio ymgyrch gynhwysfawr a fyddai'n ceisio mynd i'r afael â throseddu gwledig trawsffiniol. Roedd yr heddluoedd a oedd wedi cymryd rhan yn cynnwys Cymbria, Swydd Gaerhirfryn, Gogledd Swydd Efrog, Northumbria, Cleveland a Durham. Eu nod ar y cyd oedd codi ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau gwledig, gwella gweithgarwch rhannu gwybodaeth, a gostwng nifer y troseddau sy'n aml yn rhychwantu ardaloedd daearyddol mawr. Yn aml, bydd troseddwyr yn teithio ar hyd ffyrdd mawr fel yr M6, A1 ac A66 i gyflawni eu gweithgareddau anghyfreithlon, gan achosi gofid a cholledion ariannol sylweddol i breswylwyr a ffermwyr.

Bu'r ymgyrch yn canolbwyntio ar bedwar mater allweddol: dwyn beiciau cwad a pheiriannau fferm, dwyn anifeiliaid, byrgleriaethau a photsio. Nid yn unig y mae'r troseddau hyn yn achosi trawma emosiynol, ond maent hefyd yn effeithio ar fywiolaethau.

Yn aml, bydd troseddwyr yn croesi ffiniau i dargedu eiddo gwledig, sy'n golygu bod ymdrechion gorfodi'r gyfraith wedi'u cydlynu yn hanfodol.

Er mwyn tarfu ar weithgarwch troseddwyr teithiol, cynhaliodd y chwe heddlu weithrediadau ar y cyd a fu'n hynod lwyddiannus. Fodd bynnag, pwysleisiont y ffaith bod cynnwys y gymuned yn hanfodol. Roedd yr ymgyrch yn annog preswylwyr ac ymwelwyr i fod ar eu gwyliadwriaeth ac i adrodd am unrhyw weithgarwch amheus ar unwaith. Ystyrir bod cydweithrediad y cyhoedd yn hanfodol wrth helpu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i dargedu adnoddau mewn ffordd fwy effeithiol ac atal troseddau cyn iddynt ddigwydd.

Roedd yr ymgyrch yn cynnig cyngor ymarferol am ddiogelwch i dirfeddianwyr gwledig hefyd, gan gynnwys gosod dyfeisiau olrhain ar gerbydau a pheiriannau, tynnu allweddi allan a chadw offer o'r golwg.

Argymhellwyd gosod CCTV a chlychau drws sy'n gwneud recordiadau fideo er mwyn atal troseddwyr, ynghyd â dangos arwyddion o'r ffaith bod mesurau diogelwch mewn grym. Anogwyd pobl i ymuno â chynlluniau gwarchod ffermydd neu gynlluniau gwarchod gwledig lleol hefyd er mwyn meithrin gwyliadwriaeth gymunedol.

Anogwyd preswylwyr i adrodd am gerbydau amheus, pobl ddieithr neu eitemau wedi'u dwyn, gan ddarparu manylion fel rhifau cofrestru, disgrifiadau ac amseroedd.

Mae adrodd am anifeiliaid sy'n cael eu dwyn ac am weithgarwch potsio yn hanfodol wrth ddatblygu gwybodaeth a chynorthwyo ymchwiliadau.

Yn y pen draw, nod y cydweithio rhwng heddluoedd a chymunedau gwledig, ynghyd â chyswllt Crimestoppers, yw lleihau troseddu gwledig trawsffiniol yn sylweddol. Trwy gyfuno ymdrechion gorfodi'r gyfraith ar y cyd gyda gwyliadwriaeth gymunedol a mesurau diogelwch ymarferol, roedd yr ymgyrch yn ceisio diogelu preswylwyr gwledig a diogelu eu bywiolaethau.

# Amlygu ymwybyddiaeth o beryglon cetamin yn ymgyrch arloesol clybiau pêl-droed Glannau Mersi

Cynhaliwyd twrnamaint pêl-droed ieuenctid ym mis Mai 2025 i ysgolion ar draws Glannau Mersi er mwyn lansio menter newydd dan bartneriaeth Pedwar Clwb, Un Nod, gan amlygu peryglon cetamin a'i botensial i ddinistrio bywydau ac achosi problemau iechyd difrifol.

> "Ei nod oedd cynyddu ymwybyddiaeth o risgiau cetamin ac annog mwy o bobl i adrodd eu pryderon trwy Crimestoppers a Fearless"

Cynhaliwyd y twrnamaint yn Crosby AFC, ac roedd yn gam arwyddocaol yn ymdrechion yr ymgyrch i godi ymwybyddiaeth o gamddefnyddio cyffuriau ymhlith pobl ifanc. Cychwynnwyd y bartneriaeth, sy'n cynnwys Sefydliad FC Lerpwl, Marine yn y Gymuned, Everton yn y Gymuned a Tranmere Rovers yn y Gymuned, ym mis Hydref 2021, ac mae wedi parhau i wella diogelwch ar draws glannau Mersi ers hynny.

Defnyddiodd yr ymgyrch sianelau cyfryngau cymdeithasol a thraddodiadol ac fe'i integreiddiwyd yn rhaglenni pob clwb er mwyn cyrraedd cynulleidfa eang. Ei nod oedd cynyddu ymwybyddiaeth o risgiau cetamin ac annog mwy o bobl i adrodd am bryderon trwy gyfrwng Crimestoppers a Fearless. Yn ystod y twrnamaint, cyflwynwyd sesiwn drawiadol i'r cyfranogwyr dan arweiniad unigolion a oedd wedi bod yn gaeth i cetamin.

Roedd yr hanesion uniongyrchol hyn wedi dangos effeithiau dinistriol bod yn ddibynnol ar gyffuriau i'r gynulleidfa ifanc.

Mynychwyd y digwyddiad gan Emily Spurrell, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Glannau Mersi, a rhoddwyd sylw iddo ym mhapur newydd Liverpool Echo ac ar orsafoedd radio lleol. Cyflwynwyd medalau a thlysau gan gyn gôl-geidwad Lloegr a Lerpwl, Chris Kirkland, a oedd wedi ychwanegu at arwyddocâd yr achlysur.

Daw'r cyllid a'r cymorth ar gyfer menter Pedwar Clwb, Un Nod gan Sefydliad Steve Morgan, Ymddiriedolaeth Hemby, Sefydliad FC Lerpwl, a PCC Glannau Mersi, y maent oll wedi ymrwymo i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y gymuned.

## Atal perygl i ddefnyddwyr wrth atafaelu dros 200 potel o fodca ffug gwenwynig

Mae Crimestoppers yn darparu Llinell Gymorth Troseddau Bwyd yr Alban ar gyfer Safonau Bwyd yr Alban (FSS), sef yr awdurdod bwyd cymwys yn yr Alban. Er mis Awst 2024, mae FSS wedi bod yn arwain ar ymchwiliad ar y cyd ynghylch gwerthu fodca ffug, a oedd yn dwyn label Glen's, mewn siopau trwyddedig annibynnol ar draws yr Alban. Roedd profion dadansoddi wedi cadarnhau bod y 'fodca' yn cynnwys alcohol isopropyl (IPA), y mae yfed unrhyw symiau ohono yn gallu bod yn wenwynig, ac yn angheuol os yfir symiau mwy ohono.

Roedd hi'n amlwg bod hyn yn peri risg arwyddocaol i ddefnyddwyr, felly briffiwyd swyddogion ateb galwadau Crimestoppers am y math o wybodaeth yr oedd angen ei sicrhau mewn perthynas ag ymchwiliad FSS, gan gynnig cyngor diogelwch wrth y ffynhonnell. Roedd rhai unigolion a ffoniodd y Linell Gymorth wedi yfed rhywfaint o'r fodca ffug ac roeddent wedi dioddef symptomau sy'n gysylltiedig ag IPA, gan gynnwys cyfog, chwydu a phoen yn yr abdomen, ac roedd hyn yn cynnig tystiolaeth o'r risg i iechyd pobl.

Bu modd i FSS weithredu ar unwaith o ganlyniad i wybodaeth a gafwyd trwy'r Linell Gymorth, ac arweiniodd hyn at atafaelu 234 potel o fodca ffug o naw siop drwyddedig.

Mae'r achos hwn yn dangos y rôl allweddol a gyflawnir gan Crimestoppers wrth ddatblygu gwybodaeth a chynorthwyo ymchwiliadau, gan gynnig gwasanaeth dibynadwy a phroffesiynol i'r cyhoedd drosglwyddo gwybodaeth mewn ffordd hollol hyderus.





# Lleihau gwerthiant nwyddau ffug gyda rhybudd am y peryglon i'r cyhoedd



Roedd ymgyrch diweddaraf Crimestoppers a oedd yn targedu gwerthu nwyddau ffug, yn rhybuddio'r cyhoedd o'r peryglon posibl sy'n gysylltiedig â phrynu nwyddau ffug.

**Nwyddau cosmetig ffug:** mae'r rhain yn cynnwys cemegion niweidiol sy'n gallu peri i'r croen gosi, achosi adweithiau alergaidd, neu broblemau iechyd hirdymor.

**Teganau ffug:** yn aml, caiff y rhain eu gwneud o ddeunyddiau o ansawdd isel, gallant gynnwys cemegion gwenwynig, darnau rhydd, neu ymylon miniog. Gall rhoi teganau ffug i blant arwain at blant yn tagu, llosgi, niweidio eu clyw neu hyd yn oed yn cael eu mygu.

**Nwyddau electronig ffug:** mae'n annhebygol y bydd y rhain yn cydymffurfio â safonau cynhyrchu, sy'n golygu y gallent fod yn debygol o ordwymo, mynd ar dân, achosi llosgiadau, rhoi siociau trydanol, neu hyd yn oed ffrwydro.

Roedd dros 80% o gynhyrchion ffug a brofwyd gan y llywodraeth yn ddiweddar wedi methu archwiliadau diogelwch, yn ôl y Sefydliad Siartredig Safonau Masnach. Ac mae troseddwyr yn mynd yn fwyfwy medrus wrth ganfod ffyrdd newydd o dwyllo defnyddwyr.

Er mwyn helpu defnyddwyr i osgoi nwyddau ffug, mae Crimestoppers wedi cyhoeddi canllawiau ynghylch sut mae adnabod a yw'r eitemau a werthir yn rhai go iawn neu beidio. Mae'r arwyddion i gadw golwg amdanynt yn cynnwys:

- **Pris:** Rhy dda i fod yn wir: Os yw'r pris yn ymddangos yn anghredadwy o isel, mae'n debygol o fod yn gynnyrch ffug a allai fod yn niweidiol ac o werth gwael iawn.
- **Gwefannau amheus a lleoliadau gwerthu anarferol:** Mae gwefannau na ellir ymddiried ynddynt a safleoedd llai adnabyddus yn fannau cyffredin i droseddwyr werthu nwyddau ffug. Os yw rhywun yn gwerthu cynhyrchion o gefn fan, mewn tafarn neu glwb, mae'n debygol eu bod yn gynhyrchion ffug.
- **Camgymeriadau sillafu a gwallau gramadegol:** Yn aml, bydd troseddwyr yn esgeuluso'r manylion bychain, gan arwain at gamgymeriadau sillafu ar eu gwefannau a'u deunydd pacio.
- **Gwahaniaethau mewn cynnyrch neu ddeunydd pacio:** Os yw'r cynnyrch y byddwch yn ei gael yn edrych fel pe bai o ansawdd gwael neu nad yw'n cyfateb â'r gwreiddiol, mae'n debygol o fod yn gynnyrch ffug.
- **Gwybodaeth ar goll:** Os na fydd gwybodaeth ar y cynnyrch, megis y rhif swp neu'r symbol ar gyfer y cyfnod ar ôl agor (PAO) ar gyfer nwyddau cosmetig, tystysgrifau diogelwch ar gyfer teganau, neu fanylion gwarant ar gyfer nwyddau electronig, mae'n debygol eu bod yn ffug.

### Cyflwyniad ac effaith

Nod yr ymgyrch ymwybyddiaeth oedd cynorthwyo cymunedau amrywiol i ddeall y niwed a'r peryglon personol sy'n gysylltiedig â nwyddau ffug, ac fe'i cyflwynwyd yn Saesneg, Pwyleg a Rwmaneg ar draws ardaloedd yr oedd yn hysbys eu bod mewn perygl gan nwyddau ffug yn cael eu gwerthu yno.

Yn gyffredinol, llwyddwyd i gyrraedd 323,572 o bobl ar draws cyfryngau cymdeithasol. Ymgysylltwyd â'r ymgyrch dros 673,821 gwaith ar Google Ads, ac edrychwyd ar dudalen yr ymgyrch ar y we bron i 1,000 gwaith.

# Ymgyrch Stryd Ddiogel: creu cymunedau mwy diogel gyda'n gilydd

Er 2021, mae Crimestoppers wedi cynnal ymgyrch Stryd Ddiogel mewn partneriaeth â Ring, gan fabwysiadu dull gweithredu ffres ac ysgafn wrth hyrwyddo diogelwch yn y cartref a'r gymuned.

Cynlluniwyd yr ymgyrch i gynnig sicrwydd i bobl a'u grymuso i gymryd camau syml ond effeithiol er mwyn diogelu eu hunain, eu cartrefi a'u cymdogaethau.

Yn Stryd Ddiogel, ceir cymuned ffuglennol fywiog lle y mae cymdogion yn edrych ar ôl ei gilydd, gan greu awyrgylch o heddwch a diogelwch. Yn y gymuned hon, yr unig ddrama yw'r troeon trwstan gyda barbiciw rhif 14 a'r unig "fygythiad" yw sgiliau pêl-droed plant y cymdogion. Mae'r sefyllfaoedd chwareus hyn yn dangos sut y mae stryd wirioneddol ddiogel yn profi llawenydd bywyd bob dydd, yn hytrach na throseddu neu anrhefn.

Mae'r ymgyrch yn annog pobl i gymryd rhan mewn ffyrdd amrywiol: trwy wirfoddoli gyda Crimestoppers, manteisio ar gyngor helaeth gan Warchod y Gymdogaeth, neu fuddsoddi mewn technoleg diogelwch y cartref diweddaraf Ring. Nid yn unig y mae cynhyrchion Ring yn helpu i gadw pobl ac eiddo yn ddiogel, ond maent hefyd yn galluogi preswylwyr i gadw golwg ar anwyliaid, cadw golwg ar anifeiliaid anwes, a derbyn parseli pan fyddant oddi cartref. Mae'r ymgyrch yn pwysleisio bod mesurau o'r fath yn gwneud bywyd yn fwy syml ac yn fwy diogel, gan ganiatáu i deuluoedd ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf.

Yn ystod ail hanner 2024, llwyddodd ymgyrch Stryd Ddiogel i sicrhau llwyddiant arwyddocaol ar draws platfformau digidol lluosog, gan gynnwys Facebook, Instagram a Google. Roedd yr ymgyrch wedi ymgysylltu'n sylweddol trwy gyfrwng argraffiadau ar gyfryngau cymdeithasol ac wrth i bobl glicio ar ddolenni, gan yrru traffig sylweddol i wefan Crimestoppers.

Dangosodd y perfformiad cadarn hwn ddiddordeb y cyhoedd mewn cael arweiniad ymarferol am ddiogelwch, ac o ymgysylltu â mentrau diogelwch cymunedol. Mae themâu tymhorol yn cynnig bywyd newydd i'r Stryd Ddiogel trwy gydol y flwyddyn: yn ystod y gwanwyn, dim ond y llwynogod sy'n gwneud "drygioni"; yn ystod yr haf, bydd ffrindiau yn "ymwthio" eu hunain i bartion; adeg Calan Gaeaf, yr unig "ymwelwyr annisgwyl" yw plant bach sy'n holi "losin neu lanast"; ac adeg y Nadolig, yr unig "ddiflaniad" yw mins-peis Siôn Corn. Mae'r eiliadau hyn y gellir uniaethu â nhw yn amlygu grym cymuned unedig yn cydweithio. Mae Stryd Ddiogel yn fwy nag ymgyrch; mae'n alwad i weithredu.

Os yw unigolion yn arbenigwyr marchnata, yn arbenigwyr logisteg, neu'n godwyr arian brwd, mae gwirfoddoli gyda Crimestoppers yn cynnig ffordd ystyrlon o gyfrannu. Gyda Gwarchod Cymdogaeth a Ring, mae'r ymgyrch yn rhannu cyngor defnyddiol ac adnoddau er mwyn helpu pob stryd i fod yn stryd ddiogel.

Mae Crimestoppers yn atgoffa'r cyhoedd o'r ffaith bod unrhyw un sydd â gwybodaeth am drosedd yn gallu adrodd amdani mewn ffordd ddienw unrhyw bryd, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn. Trwy gyfrwng y bartneriaeth hon ac ysbryd cymunedol, mae Stryd Ddiogel yn helpu i droi gweledigaeth cymdogaethau mwy diogel yn realiti ar draws y wlad.








# Effaith Crimestoppers ar draws yr Alban




Y llynedd, torrwyd record gan ein helusen yn yr Alban, wrth iddi gael 23,239 o gysylltiadau gyda'r cyhoedd (i fyny 1.6%) a lledaenu 17,844 o adroddiadau i Heddlu yr Alban ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill.

Cysylltodd bron i 4,000 o bobl o'r Alban â ni am yrwyr sy'n yfed a gyrru ac sy'n gyrru dan ddylanwad cyffuriau; cawsom 15,000 o adroddiadau am weithgarwch cynhyrchu a chyflenwi cyffuriau a chawsom 400 o adroddiadau am drais a throseddau rhywiol.

Ym mis Tachwedd, bu Crimestoppers yn yr Alban yn arwain ar wobr y rhoddwyd sylw iddi yn y cyfryngau rhyngwladol. Diolch i rodd breifat o £50,000, apeliom am wybodaeth er mwyn adfer dros fil o ddarnau arian o'r ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg, a oedd wedi cael eu dwyn gan droseddwyr ym mis Mehefin 2007 o gartref Arglwydd ac Arglwyddes Stewartby yn Broughton, ger Peebles.

## Cipolwg ar Crimestoppers yn yr Alban:

**23,239**
o gysylltiadau â'r cyhoedd

**4,000**
Roedd bron i 4,000 o bobl wedi cysylltu â ni am yrwyr sy'n yfed a gyrru neu sy'n gyrru dan ddylanwad cyffuriau

**15,000**
o adroddiadau am weithgarwch cynhyrchu a chyflenwi cyffuriau

**400**
o adroddiadau am drais a throseddau rhywiol

# Effaith Crimestoppers ar draws Cymru

Mae Crimestoppers yn parhau i gael effaith bwerus ar draws Cymru, a rhannwyd dros 11,500 o adroddiadau gyda heddluoedd eleni – mae hyn yn cyfateb â 960 adroddiad y mis ar gyfartaledd, a chynnydd o 12% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r adroddiadau hyn wedi helpu i fynd i'r afael â materion allweddol fel masnachu cyffuriau, gyda 5,429 adroddiad, ac yfed a gyrru a gyrru dan ddylanwad cyffuriau – 3,280 adroddiad – yn dangos grym lleisiau dienw wrth gadw cymunedau yn ddiogel.

Mae'r gwaith wedi mynd ymhell y tu hwnt i adrodd yn unig. Darparwyd dros 41,000 o weithdai Fearless, lle'r addysgwyd miloedd o bobl ifanc am atal troseddu a sut i godi eu llais mewn ffordd ddiogel. Mae ymgysylltu ar-lein wedi mynd o nerth i nerth hefyd, wrth i dros 235,000 o ymwelwyr droi at wefan Crimestoppers yng Nghymru, gyda chymorth sylw cryf yn y cyfryngau a chynigiwyd gwerth £120,000 ar ffurf gwobrau.

## Cipolwg ar Crimestoppers yng Nghymru:

**960**
oedd nifer gyfartalog yr adroddiadau a rannwyd bob mis

**5,429**
o adroddiadau am fasnachu cyffuriau

**41,000**
o weithdai Fearless wedi'u cyflwyno

**331**
o adroddiadau am gyllyll ac arfau llafnog

**3,280**
o adroddiadau am yfed a gyrru a gyrru dan ddylanwad cyffuriau

**235,000**
o ymwelwyr â gwefan Crimestoppers yng Nghymru


# Cynnydd o dros 400% mewn adroddiadau am ddwyn ynni mewn 7 mlynedd

Lansiwyd y Gwasanaeth Adrodd am Ddwyn Ynni gan Crimestoppers ym mis Medi 2016, gan weithio ar y cyd â'r sector ynni ym Mhrydain. Ers hynny, mae wedi mynd o nerth i nerth. Wrth addysgu'r cyhoedd yn barhaus am beryglon dwyn ynni, a elwir hefyd yn amharu ar fesuryddion neu dwyllo mesuryddion, rydym wedi annog mwy a mwy o bobl i godi eu llais am y drosedd beryglus hon.

Stay Energy Safe yw'r brand cyhoeddus ac fe'i ddefnyddir i hyrwyddo'r Gwasanaeth Adrodd am Ddwyn Ynni a chynnig cynnwys addysgol, cymorth ac arweiniad. Mae'n helpu pobl i adnabod achosion o ddwyn ynni fel eu bod yn gallu cadw eu hunain a'u hanwyliaid yn ddiogel.

Dros y 12 mis diwethaf, mae BH&P (asiantaeth farchnata Stay Energy Safe) wedi gweithio gyda'r Cwmni Cod Ynni Manwerthu (sefydliad nid-er-elw sy'n berchen ar ac sy'n rheoli'r Cod Ynni Manwerthu) a Crimestoppers, er mwyn parhau i hyrwyddo negeseuon am ddwyn ynni a chadw'n ddiogel mewn perthynas ag ynni, trwy wefan Stay Energy Safe, Google, cyfryngau cymdeithasol, gweithgarwch gan ddylanwadwyr, ymgyrchoedd radio a CC digidol.

Bu'r ymdrech hon i gadw pobl yn ddiogel yn llwyddiannus, wrth i nifer y bobl a oedd wedi cysylltu â gwasanaeth Stay Energy Safe mewn ffordd hollol ddienw i ddweud wrthym am achosion o ddwyn ynni, godi 2,939 yn ystod y 12 mis rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025 (+20%). Gwelwyd nifer y darnau o wybodaeth am achosion lle y ceir amheuaeth bod



ynni yn cael ei ddwyn, a anfonwyd i'r sector ynni, yn codi 2,321 (+21%). Roedd 17,789 o gysylltiadau yn golygu y gallem drosglwyddo 13,415 darn o wybodaeth i'r diwydiant ynni er mwyn iddynt ymchwilio iddynt.

Mae'r canlyniad hwn yn wahanol byd i nifer yr adroddiadau a drosglwyddwyd yn ystod blwyddyn lawn gyntaf y gwasanaeth – rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, anfonom 2,613 o amheuon ynghylch dwyn ynni i'n partneriaid ynni. Mae'r cyfanswm a sicrhawyd yn ystod 2024-2025 yn cynrychioli cynnydd o 413% o'i gymharu â'r ffigwr cychwynnol hwn.

Gyda gwasanaeth penodedig a gwaith parhaus a chynhwysfawr i hyrwyddo peryglon dwyn ynni a'r arwyddion i gadw golwg amdanynt, rydym yn cadw mwy o gymunedau yn ddiogel rhag y niwed sy'n gysylltiedig â tharfu ar fesuryddion, gan gynnig y cyfle i gyflenwyr, gweithredwyr rhwydweithiau dosbarthu a chludwyr nwy adfer refeniw a gollir i'r troseddu hwn.

## Stay Energy Safe Gogledd Iwerddon

Er mwyn ehangu'r llwyddiant hwn, ac er mwyn cynnig y cyfle i fwy o bobl ddweud wrthym yr hyn y maent yn ei wybod am achosion o ddwyn ynni, ym mis Mehefin 2025, sefydlom wasanaeth newydd – Stay Energy Safe Gogledd Iwerddon.

Mae'r bartneriaeth hon gyda Rhwydweithiau Trydan Gogledd Iwerddon (Rhwydweithiau NIE) yn ein galluogi i ddiogelu pobl, cartrefi, ffermydd a busnesau ar draws Gogledd Iwerddon. Mae Rhwydweithiau NIE yn hyrwyddo'r gwasanaeth, ynghyd â'i brif negeseuon, er mwyn helpu pobl i ddeall pa mor beryglus y gall tarfu ar eich mesurydd, neu'r cyflenwad ynni, fod. Bellach, mae gan unrhyw un sydd â gwybodaeth am droseddau ynni ffordd ddiogel o gyfleu'r hyn y maent yn ei wybod mewn ffordd hollol ddienw, fel bod sector ynni Gogledd Iwerddon yn gallu sicrhau bod y cyflenwad a mesuryddion yn ddiogel. Ac yn ei dro, mae hyn yn sicrhau bod y bobl sy'n byw neu sy'n gweithio gerllaw yn cael eu diogelu.





# Gwella diogelwch a chymunedau yn cael eu diogelu trwy gydweithio gyda DPD a HSBC

Mae'r tîm Datblygu Busnes wedi cael blwyddyn lwyddiannus.

Gan weithio'n galed er mwyn helpu i ddiogelu busnesau a'u cwsmeriaid, maent wedi cyflawni targedau ariannol heriol er mwyn sicrhau bod yr elusen yn gallu gwneud mwy nag erioed o'r blaen i gynorthwyo ei buddiolwyr.

Gan ganolbwyntio ar uchafbwyntiau deuol llinellau 'codi llais' a rhannu gwybodaeth, gyda chymorth ymgyrchoedd sy'n cael effaith, mae Crimestoppers wedi ehangu a dyfnhau ei gynnig i bartneriaid allweddol.

Gan edrych i'r dyfodol, bydd y tîm yn parhau i ganolbwyntio ar y llinellau gweithgarwch hynny sy'n cyd-fynd â gwasanaeth craidd yr elusen, gan sicrhau bod gan bawb y grym i godi eu llais am ymddygiad annerbyniol, lle bynnag y caiff ei weld.

dpd

Eleni, sicrhawyd y bartneriaeth gyntaf yn y sector logisteg, gyda chwmni dosbarthu parseli blaenllaw DPD. Gyda'n gilydd, rydym yn gweithio i godi ymwybyddiaeth a gwella diogelwch gyrwyr dosbarthu a nwyddau cwsmeriaid wrth gynnig platfform dienw ac y mae modd ymddiried ynddo i'r cyhoedd er mwyn adrodd am bryderon. Mae DPD yn rhedeg dros 10,000 o gerbydau yn y DU o 85 o leoliadau, gan ddosbarthu dros 360 miliwn o barseli bob blwyddyn. Bydd y bartneriaeth gyda Crimestoppers yn cynorthwyo ymdrechion tîm diogelwch DPD i gadw un cam ar y blaen i droseddwyr.

Mae DPD wedi creu sticer pwrpasol, a ddefnyddir ar eu cerbydau DPD i ddangos sut y maent yn gweithio gyda Crimestoppers. Maent hefyd wedi creu taflenni a phosteri er mwyn hysbysu ein cwsmeriaid a'n staff o'r hyn y mae partneriaeth DPD a Crimestoppers yn ei gyflawni.

Nododd Tim Jones, Cyfarwyddwr Marchnata, Cyfathrebu a Chynaliadwyedd DPD UK, "Rydym wrth ein bodd o gael gweithio gyda Crimestoppers ar yr ymgyrch pwysig hwn. Mae trais yn erbyn unrhyw un sy'n ceisio gwneud eu gwaith yn annerbyniol, felly mae'n bwysig ein bod yn trafod diogelwch gyrwyr ac yn cymryd camau i ddiogelu ein tîm ac wrth gwrs, sicrhau bod cynhyrchion cwsmeriaid yn cael eu dosbarthu yn ddiogel. Bydd gweithio gyda Crimestoppers yn datblygu gwaith ein tîm Diogelwch mewnol."

> **"Rydym wrth ein bodd o gael gweithio gyda Crimestoppers ar yr ymgyrch pwysig hwn. Mae trais yn erbyn unrhyw un sy'n ceisio gwneud eu gwaith yn hollol annerbyniol"**

HSBC


Yn 2024, roeddem wrth ein bodd i gyhoeddi ein trefniant cydweithio gyda HSBC ac rydym bellach yn rhannu data y mae ein Canolfan Gyswllt yn ei gael sy'n ymwneud â'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r banc. Rydym cydweithio'n agos â thîm diogelwch HSBC er mwyn helpu i nodi a mynd i'r afael â gweithgarwch troseddol posibl yn safleoedd HSBC a gerllaw safleoedd HSBC. Trwy rannu gwybodaeth berthnasol a gaiff ei chyfleu i'r Ganolfan Gyswllt, rydym yn cynorthwyo eu hymdrechion i ddiogelu cwsmeriaid, staff ac asedau.



# Bydd prosiect Matrics Data newydd yn arwain at weithgarwch cynllunio gwell ar gyfer ymgyrchoedd

Dros y chwe mis diwethaf, mae Tîm Data Crimestoppers, dan arweiniad Greg Ferguson, Rheolwr Data, wedi gweithio gyda'r Tîm Cyfathrebu Marchnata i greu offeryn newydd o'r enw y Matrics Data. Mae'r offeryn hwn yn helpu Crimestoppers i ddeall a defnyddio data yn well er mwyn cynllunio a gwella ymgyrchoedd ar draws y wlad ac mewn rhanbarthau penodol.

Mae'r Matrics Data yn defnyddio gwybodaeth a gasglwyd dros sawl blynedd. Mae'n mapio holl adroddiadau Crimestoppers i wahanol ardaloedd daearyddol, gan ddangos lle y mae nifer yr adroddiadau yn cynyddu neu'n gostwng. Mae hyn yn helpu i weld




pa mor dda y mae ymgyrchoedd blaenorol wedi gweithio ac mae'n helpu i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol yn ystod 2025/26 a thu hwnt.

Mae'r offeryn yn helpu Rheolwyr Rhanbarthol a'r tîm Datblygu Busnes hefyd. Gallant ei ddefnyddio i adolygu ymgyrchoedd blaenorol, gweld yr hyn a oedd wedi gweithio, a chanolbwyntio ar ardaloedd lle y mae angen mwy o gymorth. Trwy olrhain tueddiadau a rhagweld patrymau yn y dyfodol, gall Crimestoppers sicrhau bod ymgyrchoedd yn fwy effeithiol, a chasglu gwybodaeth sy'n fwy defnyddiol ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith a phartneriaid.

Yn gyffredinol, mae'r Matrics Data yn ymdrech ar y cyd i wneud penderfyniadau mwy deallus yn seiliedig ar ddata. Mae mapio adroddiadau mewn ffordd ddaearyddol a dadansoddi tueddiadau yn helpu i dargedu ymdrechion yn well a gwella'r ffordd y cesglir gwybodaeth a'r ffordd y caiff ei rhannu gyda'r heddlu ac asiantaethau eraill. Bydd hyn yn cryfhau ymdrechion allgymorth ac yn cynorthwyo Crimestoppers i leihau troseddu a chynyddu diogelwch cymunedol.

## Partneriaeth gyda Crime Stoppers Rhyngwladol yn dangos dylanwad Crimestoppers y DU

Mae Crime Stoppers Rhyngwladol (CSI) yn cynorthwyo ymdrechion corfforaethau rhyngwladol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith ar draws y byd i roi stop ar, datrys, atal a tharfu ar droseddu rhyngwladol difrifol a chyfundrefnol.

Ymwelodd cynrychiolwyr o Awstralia, Canada, De Affrica, ac ynys Micronesia yn y Môr Tawel â Chanolfan Gyswllt genedlaethol a phencadlys Crimestoppers y DU yn Llundain. Bu'r ymweliad hwn yn gyfle i'r ddau sefydliad gyfnewid syniadau am gynnal gweithgarwch adrodd am droseddu mewn ffordd ddienw, ac etholwyd Mick Duthie, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Crimestoppers y DU, yn Is-Lywydd bwrdd CSI.

O weld gweithrediadau'r Ganolfan Gyswllt genedlaethol, roedd lefel broffesiynoldeb uchel, cwrteisi ac ymroddiad Crimestoppers y DU wedi gwneud cryn argraff ar dîm CSI.

Fel nifer o raglenni Crime Stoppers ar draws y byd, mae Crimestoppers y DU yn gweithredu ar wahân i'r heddlu. Mae annibyniaeth ar asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn parhau i fod yn nodwedd hanfodol ac arbennig o raglenni Crime Stoppers, gan gynnig llwyfan dienw i unigolion gysylltu, a chan sicrhau adroddiadau na fyddent yn cael eu datgelu fel arall efallai.

Mae'r bartneriaeth sydd bellach mewn grym rhwng Crimestoppers y DU a CSI wedi arwain at Ganolfan Gyswllt y DU yn delio ag adroddiadau a wnaethpwyd i CSI. Bellach, gall pobl sy'n dymuno adrodd am droseddau mewn ffordd ddienw ar wefan CSI gyflwyno eu gwybodaeth trwy ffurflen ar-lein fyd-eang, a fydd yn cael ei hasesu gan Ganolfan Gyswllt Crimestoppers y DU ac yna, caiff ei throsglwyddo i'r awdurdodaeth berthnasol.

Wrth ei wraidd, mae'r frwydr yn erbyn troseddu a chanlyn cymunedau a chenhedloedd mwy diogel yn gofyn am ymdrech ar y cyd. Mae cydweithrediad byd-eang yn dwyn manteision yn y wlad hon ac mewn gwledydd tramor ac mae'r ddau sefydliad yn edrych ymlaen at fwynhau perthynas hirhoedlog ac ar y cyd.





# Partneriaeth Crimestoppers gyda Police CPI

Mae Crimestoppers wedi ymrwymo i bartneriaeth gyda Police CPI i wella ymdrechion atal troseddu ar draws y DU. Mae Police CPI, sefydliad nid-er-elw y mae'r heddlu yn berchen arno, yn ymrwymo i gyflawni mentrau arloesol ac sy'n torri tir newydd, sy'n ceisio lleihau'r galw ar wasanaethau'r heddlu a diogelu'r cyhoedd.

Fel cynllun cenedlaethol, mae Police CPI yn sicrhau llwyddiannau nodedig trwy ei bortffolio amrywiol o brosiectau. Cynlluniwyd pob menter i gadw cymunedau yn fwy diogel trwy atal troseddu cyn iddo ddigwydd a lleihau'r pwysau ar asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Mae'r sefydliad yn cydweithio'n helaeth gyda chyrff amrywiol o'r sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys Crimestoppers,

> "Cynlluniwyd pob menter i gadw cymunedau yn fwy diogel trwy atal troseddu cyn iddo ddigwydd"

y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Dai, awdurdodau lleol, cymdeithasau masnach, y diwydiant adeiladu, a chynhyrchwyr cynhyrchion diogelwch.

Un o brosiectau amlycaf Police CPI yw menter Secured by Design, sy'n canolbwyntio ar wella diogelwch adeiladau a'r amgylchedd o'u cwmpas. Mae'r cynllun yn cynnig gwasanaeth achredu hefyd ar ran Gwasanaeth yr Heddlu y DU ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau sy'n bodloni safonau diogelwch cydnabyddedig, gan hyrwyddo amgylcheddau mwy diogel.

Yn gyffredinol, mae Police CPI yn cyflawni rôl hanfodol wrth ddarparu atebion atal troseddu arloesol a meithrin partneriaethau ar draws gwahanol sectorau. Mae eu hymdrechion yn gwneud cyfraniad arwyddocaol tuag at greu cymunedau mwy diogel a lleihau'r galw sy'n ymwneud â throseddu ar adnoddau'r heddlu.

Mae'r cydweithio rhwng Crimestoppers a Police CPI yn dangos ymrwymiad ar y cyd i ddiogelu'r cyhoedd a chryfhau mentrau atal troseddu ar draws y wlad.

## Grymuso pleidleiswyr a chryfhau democratiaeth: effaith ymgyrch 'Eich Pleidlais Chi yn Unig yw Hi' 2024

Gweithiodd Crimestoppers gyda'r Comisiwn Etholiadol a'r Weinyddiaeth Gymunedau, Tai a Llywodraeth Leol i lansio ymgyrch 'Eich Pleidlais Chi yn Unig yw Hi'. Cynlluniwyd hwn i hyrwyddo uniondeb etholiadol yn y polau yn Lloegr ym mis Mai 2024.

Fel elusen gofrestredig, mae Crimestoppers wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth o dwyll etholiadol er 2015, gan annog y cyhoedd i adnabod gweithgarwch amheus ac adrodd amdano.

Prif nod yr ymgyrch oedd addysgu pleidleiswyr am yr hyn sy'n cyfateb â thwyll etholiadol a chymell pobl i adrodd amdano. Defnyddiodd ddull digidol cynhwysfawr, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, Hysbysebion Google, a phlatfform Performance Max Google, a gaiff ei yrru gan Deallusrwydd Artiffisial. Roedd y negeseuon cyson yn canolbwyntio ar ddiogelu uniondeb a natur ddienw pleidleiswyr, gan geisio meithrin ymddiriedaeth ac amlygu cyfrifoldeb dinesig.

Llwyddodd yr ymgyrch i sicrhau gweithgarwch ymgysylltu digidol nodedig. Ar Facebook ac Instagram, llwyddodd i sicrhau dros 1.4 miliwn o argraffiadau a chyrraedd bron i 447,000 o ddefnyddwyr, gyda 46,367 clic a chyfradd clicio trwyddo o 3.29%, a chost isel fesul clic o £0.19.

Cyfeiriwyd ymwelwyr at dudalen lanio benodedig ar wefan Crimestoppers, a oedd wedi llwyddo i ddenu 6,500 o edrychiadau unigryw a sicrhau 23 adroddiad am bryderon etholiadol, megis anghysonderau gyda phleidleisiau post a phroblemau cofrestru pleidleiswyr. Mae'r adroddiadau hyn, a drosglwyddwyd i'r heddlu, yn amlygu parodrwydd y cyhoedd i gymryd rhan wrth ddiogelu democratiaeth, ac maent yn dangos effaith go iawn yr ymgyrch.

Yn gyffredinol, roedd llwyddiant yr ymgyrch wedi gwella enw da Crimestoppers fel partner effeithiol wrth hyrwyddo uniondeb etholiadol, gan ehangu ei gyrhaeddiad, ac annog y cyhoedd i fod yn wyliadwrus yn erbyn twyll etholiadol.

# Ymgyrch Crimestoppers a Fearless i ostwng cyfraddau troseddu yn Brixton

Mewn ymgais i fynd i'r afael â throseddu cyfundrefnol difrifol yn ardal Brixton, de Llundain, cynhaliodd Crimestoppers a'n gwasanaeth ieuenctid, Fearless, ymgyrch wedi'i dargedu i gynorthwyo Menter *Clear Hold Build* Heddlu Llundain er mwyn ceisio grymuso preswylwyr a phobl ifanc i adrodd am weithgareddau troseddol mewn ffordd hollol ddienw.

Roedd yr ymgyrch yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol wedi'u targedu, dosbarthu taflenni, a hysbysebu yng ngorsaf tiwb brysur Brixton. Mae Angel Town a Somerlayton yn ddwy ardal yn Brixton sydd wedi cael eu heffeithio'n arbennig gan droseddu cyfundrefnol difrifol, er bod preswylwyr yn meithrin ymdeimlad cadarn o ysbryd cymunedol o hyd. Cynlluniwyd yr ymgyrch i annog preswylwyr i ddarparu gwybodaeth newydd am droseddu yn eu cymdogaeth, gyda'r nod penodol o gasglu tystiolaeth am weithgarwch gangiau, atafaelu arfau a chyffuriau, a diogelu unigolion agored i niwed.

Roedd elfen Fearless yr ymgyrch wedi targedu pobl ifanc, gan gynnig llwyfan diogel iddynt adrodd am droseddu heb iddynt orfod ofni y byddai rhywun yn dial arnynt am wneud hynny. Gweithiodd tîm Crimestoppers a Fearless gydag ysgolion uwchradd yn y bwrdeistref, gan rannu deunyddiau Fearless, cardiau chwarae "Beth fyddech chi'n ei wneud?" ac adnoddau addysgol am ddull Snechian yn erbyn Cadw'n Dawel, gan helpu i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol a phobl ifanc yn ymwybodol o bwysigrwydd eu rôl wrth greu cymuned sy'n fwy diogel.

Bu Alexa Loukas, Rheolwr Rhanbarthol Llundain Crimestoppers, a'n gwirfoddolwr yn Llundain, Keith Lebihan, yn cydweithio'n agos gyda sefydliadau lleol fel Cegin Gawl Brixton, sy'n darparu prydau, dillad a chymorth i bobl digartref a'r rhai sydd mewn angen. Nod y cydweithio hwn yw rhoi sylw i achosion sylfaenol troseddu trwy gynnig gwasanaethau hanfodol a meithrin ymdeimlad o gymuned. Mae Keith wedi bod yn gwirfoddoli i Crimestoppers yn Llundain dros y dair blynedd ddiwethaf a threuliodd y diwrnod yn Brixton yn ymweld â phartneriaid cymunedol ac yn dosbarthu taflenni a phosteri.

Dywedodd Alexa: "Wrth weithio gyda phartneriaid yn Brixton, roedd hi'n glir i weld bod unigolion ymroddedig penodol yn cael dylanwad arwyddocaol yn eu cymunedau. Rydym yn helpu i weddnewid pethau yn y cymunedau hynny."




> "Roedd elfen Fearless yr ymgyrch wedi targedu pobl ifanc yn Brixton, gan gynnig llwyfan diogel iddynt adrodd am droseddu heb iddynt orfod ofni y byddai rhywun yn dial arnynt am wneud hynny"



Meithrin ymddiriedaeth a hyder

# Ein gwirfoddolwyr anhygoel

Mae gennym 38 o bwyllgorau gwirfoddolwyr gweithgar ar draws y DU, ac arweinir pob un ohonynt gan Gadeiryddion neu Arweinwyr Tîm ymroddedig, a chânt eu cynorthwyo gan wirfoddolwyr ymroddedig sy'n cyflawni amrywiaeth o swyddi, ac y maent, gyda'i gilydd, yn asgwrn cefn ein presenoldeb lleol.

Maent yn cynrychioli Crimestoppers mewn digwyddiadau, gan helpu i godi ymwybyddiaeth o'n gwasanaethau, ac maent yn gweithredu fel lleisiau y gellir ymddiried ynddynt yn eu cymunedau. Maent yn cydweithio'n agos gyda'n 15 o Reolwyr Rhanbarthol a Chenedlaethol ar draws y DU er mwyn sicrhau bod Crimestoppers yn cynnal presenoldeb cadarn a gweladwy mewn cymunedau lleol.

Daeth y rhaglen benodedig yr ydym wedi bod yn ei chynnal er 2020 i wella'r cymorth yr ydym yn ei roi i'n gwirfoddolwyr i ben eleni. Rydym wedi darparu proses recriwtio ac ymsefydlu well, adnoddau ac offerynnau newydd, rhoi mwy o bwyslais ar ein Cynllun Cenhadon Cymunedol, a gwell gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu.

Rydym hefyd wedi creu darlun o iechyd gwirfoddoli ym mhob ardal, gan gynnal arolygon ymhlith pob tîm a chreu cynlluniau lleol, a oedd hefyd wedi amlygu'r hyn yr oedd angen i'r tîm Cynorthwyo Gwirfoddolwyr ei ddarparu eto er mwyn i'n gwirfoddolwyr barhau i ffynnu.

Mae'r gwaith yn parhau, ac ar ôl i'n Rheolwr Gwirfoddolwyr, Greg Rees, ymddeol ar ôl 8 mlynedd, mae'n bleser gennym groesawu'r un a fydd yn ei olynu, sef Silvia Vergara. Mae hi'n gweithio gyda gwirfoddolwyr a staff er mwyn creu'r cam nesaf ar ein taith o ymgysylltu â gwirfoddolwyr.

### Gwobrau Gwirfoddolwyr 2025

Mae ein Gwobrau Gwirfoddolwyr blynyddol yn cynnig y cyfle i ni arddangos, dathlu a diolch i'n gwirfoddolwyr. Fel yr arfer, canfu beirniaid 2025 bod safon yr enwebiadau yn eithriadol o uchel.

Ymhlith yr enillwyr oedd Alan Pritchard o Bwyllgor yr Alban a Monica Sharp o Orllewin Mercia, y dyfarnwyd Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Carolyn Randall iddynt ar y cyd, sef gwobr sy'n cofio un o hoelion wyth annwyl Crimestoppers. Ymwelodd Alan â bron i 100 o ffermydd er mwyn ymgysylltu â chymunedau gwledig a meithrin cysylltiadau ystyrlon, ac mae arbenigedd a chymorth diflino Monica ym maes ymgyrchoedd trais domestig wedi cynnig budd arwyddocaol i'w rhanbarth.

Colin Dobinson oedd arloeswr ein cynllun Cenhadon Cymunedol, ac eleni, cyflwynwyd gwobr newydd er cof amdano, a enillwyd gan Lewis Gittins o Wiltshire.

Mae'n bleser gan Crimestoppers gydnabod ymrwymiad anhygoel ein gwirfoddolwyr sy'n ein helpu i greu cymunedau mwy diogel, ac y mae eu hymdrechion wir yn ysbrydoledig ac yn hanfodol i'n cenhadaeth.

**CrimeStoppers. Volunteer Awards 2025**

Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Carolyn Randall
**Alan Pritchard, Pwyllgor Yr Alban**

Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn Carolyn Randall
**Monica Sharp, Pwyllgor Gorllewin Mercia**

Gwobr Pwyllgor y Flwyddyn
**Pwyllgor Wiltshire**

Gwobr Gwirfoddolwr Ifanc
**Saffron Buckler, Pwyllgor De-orllewin Lloegr**

Gwobr Codwr Arian
**Peter Rolington, Pwyllgor Caint**

Gwobr Arwr Di-sôn-amdanynt
**Keith Lebihan, Bwrdd Strategol Llundain**

Gwobr Cennad Cymunedol Colin Dobson
**Lewis Gittins, Pwyllgor Wiltshire**

Gwobr Cyflawniad Oes
**Bill South, Cadeirydd Bwrdd Strategol Llundain**

Gwobr Gorfforaethol y Prif Swyddog Gweithredol
**Partneriaeth Rheilffordd Gymunedol Severnside**

# Cynnydd o 13.5% yn nifer yr adroddiadau am droseddu yng nghefn gwlad Swydd Gaerloyw

Darparodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, trwy gyfrwng menter Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref, £10,000 i Crimestoppers er mwyn cynnal ymgyrch i dargedu troseddu gwledig ar draws Swydd Gaerloyw. Cynhaliwyd Cam 1 yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst 2024, a chynhaliwyd cam 2 ym mis Hydref a Thachwedd.




## Pam y cynhaliom yr ymgyrch

Mae troseddu gwledig yn mynd yn gynyddol ddifrifol a chyfundrefnol. Trefnir cyfran fawr o droseddau gwledig gan gangiau troseddol er mwyn ariannu mentrau troseddol eraill neu er mwyn gwyngalchu arian. Yn y cyfamser, caiff dioddefwyr troseddau gwledig eu bygwth yn gynyddol dros gyfnod estynedig a chredir bod tanadrodd yn digwydd o ran troseddu gwledig yn aml.

Roedd ein hymgyrch yn canolbwyntio ar hysbysu'r cyhoedd o'r ffaith bod nifer o droseddau gwledig yn cael eu cyflawni gan grwpiau troseddu cyfundrefnol, sy'n rhan o weithgarwch troseddol difrifol ehangach mewn gwirionedd.

Roedd cam 1 yn canolbwyntio ar ddwyn peiriannau fferm gwerthfawr a systemau GPS, ac roedd cam 2 yn mynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt, megis hela ysgyfarnogod a baetio moch daear. Ein nodau oedd:

- Addysgu'r cyhoedd am yr arwyddion i gadw golwg amdanynt sy'n dynodi y gallai gweithgarwch amheus fod yn digwydd yn eu hardal, a'u hannog i adrodd yr hyn y maent yn ei wybod yn barod, gan atal trosedd rhag digwydd o bosibl.
- Codi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod nifer o droseddau gwledig yn cael eu cyflawni gan gangiau troseddol er mwyn ariannu troseddau eraill.
- Cynyddu nifer yr adroddiadau a roddir i Crimestoppers, gan ddarparu rhagor o wybodaeth i'r heddlu.
- Codi ymwybyddiaeth o'r gallu i adrodd trwy sianelau adrodd dienw Crimestoppers, gan sicrhau'r cyhoedd y gallant godi eu llais am droseddu gwledig.

## Amlinelliad o'r ymgyrch

- Roedd y gweithgarwch yn cynnwys dau ymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol: tudalen bwrpasol ar y we, hysbysebion radio lleol, taflenni ac amrywiaeth o eitemau hyrwyddo er mwyn helpu i ymgysylltu â'r cyhoedd a ffermwyr mewn digwyddiadau lleol. Gweithiom gydag amrywiaeth o bartneriaid hefyd er mwyn lledaenu ymwybyddiaeth o adrodd dienw i bobl mewn cymunedau gwledig.


## Canlyniadau ac effaith

- Llwyddodd ein hymgyrch i gyrraedd dros 174,000 o bobl leol yn ystod cam 1, a 153,000 yn ystod cam 2.
- Llwyddodd yr ymgyrchoedd ar gyfryngau cymdeithasol i sicrhau gweithgarwch ymgysylltu gwych gyda chyfraddau clicio trwodd uwch na'r cyfartaledd.
- Roedd dros 1,500 o bobl wedi troi at ein tudalen bwrpasol ar y we i ddarganfod mwy am droseddu gwledig.
- Ar ddiwedd y prosiect, gwelwyd cynnydd o 13.5% yn nifer yr adroddiadau dienw a gafodd Crimestoppers ynghylch troseddu yn ardaloedd gwledig Swydd Gaerloyw.





# Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol




Cred ein helusen bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw ac yn gweithio, ac er mwyn cyflawni hyn, credwn yng ngrym pobl i roi stop ar droseddu.

Mae'r grym mewn codi llais – mae tawelwch yn caniatáu i droseddwyr ffynnu, i wneud dolur i ni a'r rhai yr ydym yn ymboeni amdanynt. Mae ein haddewid i gadw unrhyw un sy'n troi atom yn ddienw wrth galon ein gwaith ac yn rhan greiddiol o'n Canolfan Gyswllt.

## Mae ein hamcanion fel a ganlyn:

1. Gwella ansawdd y wybodaeth ddienw yr ydym yn ei hanfon at yr heddlu a phartneriaid. Mae ein gwybodaeth o ansawdd yn ddefnyddiol ac yn unigryw. Rydym yn cynnal y safonau uchaf wrth brosesu gwybodaeth a diogelu ein defnyddwyr. Rydym yn cyfleu ein haddewid i gadw pobl yn ddienw i'r rhai y maent y lleiaf tebygol o ddelio ag awdurdodau yn uniongyrchol.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Ymateb yn gyflym i broblem gynyddol troseddau cyllyll sy'n gysylltiedig â lladrata, ymosodiadau/llofruddiaethau, a throseddau cyffuriau gyda deunyddiau cyfathrebu i wirfoddolwyr a phartneriaid eu defnyddio.
- Cynyddu'r adroddiadau am droseddau sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched, gyda dau ymgyrch cenedlaethol, diweddariadau i'n gwefan ac amrywiaeth o asedau ymgyrch i wirfoddolwyr a phartneriaid eu defnyddio.
- Ymgysylltu â'r holl luoedd er mwyn gwella eu gweithgarwch adrodd am effaith Crimestoppers wrth iddynt ddatrys ac atal troseddau. Bydd amseroldeb ac ansawdd eu hadborth yn gwella er mwyn dangos sut, trwy gydweithio, yr ydym yn gwneud gwahaniaeth.

2. Gwella ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaethau ymhlith ein defnyddwyr tebygol. Gweithio yn uniongyrchol gyda chymunedau a phartneriaid trwy sgwrsio, fel bod y bobl sydd lleiaf tebygol o godi eu llais yn gwybod ein henw, a'n bod yno iddynt os byddant fyth ein hangen.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Parhau ein gweithgareddau mewn ardaloedd wedi'u targedu, gan gynnwys partneriaethau dros y tymor hwy a gwaith cymunedol, er mwyn rhoi sylw i droseddu cyfundrefnol difrifol sy'n amharu ar y rhai sy'n byw ac sy'n gweithio yno.
- Defnyddio ein Panel Ieuenctid yn fwy i ddatblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, wrth i ni feithrin cymuned o bobl ifanc Fearless gwybodus, sydd wedi cael eu grymuso i godi eu llais am droseddu ac sy'n teimlo'n hyderus i ddefnyddio gwasanaethau Crimestoppers.
- Gweithredu nifer o ymgyrchoedd 'brand yn gyntaf' mewn ardaloedd penodol lle y gwelir amddifadedd, gan geisio creu sylfaen graidd o ddealltwriaeth o'n prif negeseuon ac sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau allweddol o ran troseddu.

3. Ymestyn cronfa ein cefnogwyr, ein partneriaethau a'n rhwydweithiau er mwyn cyrraedd pob cymuned. Mae partneriaethau a chefnogwyr cadarn yn rhan annatod o'r ffordd yr ydym yn gweithio, o'r heddlu i wirfoddolwyr ac i sefydliadau eraill. Dim ond gyda'n gilydd y gallwn helpu i roi stop ar droseddu.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Cydweithio'n agos gyda'n partneriaid i ddatblygu perthnasoedd sy'n bodoli eisoes i fod yn bartneriaethau dyfnach sy'n para yn hirach a chreu cyfleoedd newydd.
- Creu rhwydwaith o oedolion y gellir ymddiried ynddynt ac sy'n gallu ein helpu i gyfathrebu gyda phobl ifanc, fel unigolion a thrwy gyfrwng sefydliadau cenedlaethol perthnasol.
- Creu gwybodaeth ar gyfer timau plismona bro sy'n tyfu fel y gallant siarad am Crimestoppers yn hyderus.

4. Bod yn elusen effeithiol ac effeithlon sy'n cynnig gwerth am arian gwych i'n buddiolwyr a'n partneriaid, a'r profiad gorau ar gyfer ein staff a'n gwirfoddolwyr.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn:

- Creu gweledigaeth ar gyfer dyfodol ein helusen gyda llwybr clir er mwyn cyflawni hyn, fel bod uchelgais yr elusen yn cael ei gwireddu.
- Datblygu mentrau newydd fel y gall ein gwirfoddolwyr wneud mwy er mwyn gwneud gwahaniaeth, o strwythurau a phrosesau cadarn, i hyfforddiant a rolau newydd er mwyn cynorthwyo gwirfoddolwyr a'r staff allweddol sy'n gweithio law yn llaw â nhw.
- Buddsoddi mewn technoleg bellach yn ein Canolfan Gyswllt, o systemau teleffoni modern i systemau awtomateiddio sy'n symleiddio prosesau fel y gall ein staff ychwanegu gwerth i adrodd dienw o ansawdd.

Nid y cyfrifon statudol yw'r datganiadau ariannol cryno, ond crynodeb o'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r datganiad cyfunol o'r gweithgareddau ariannol a'r fantolen gyfunol o adroddiadau a datganiad ariannol Ymddiriedolwyr yr elusen, wedi'u harchwilio'n llawn, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 23 Gorffennaf 2025. Roedd datganiad yr archwilwyr yn unol â'r hyn a ragnodwyd gan Ddeddf Cwmniau 2006 yn ddiamod. Yn dilyn hyn, caiff copïau o'r datganiadau ariannol llawn eu ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban a Thŷ'r Cwmnïau. Efallai na fydd y datganiadau ariannol cryno hyn yn cynnwys digon o wybodaeth i gael dealltwriaeth gyflawn o faterion ariannol yr elusen. Mae adroddiad a datganiadau ariannol yr Ymddiriedolwyr, wedi'u harchwilio'n llawn, ar gael ar wefan yr elusen, www.crimestoppers-uk.org, neu gellir gwneud cais i swyddfa ganolog yr elusen am gopi.

**Peter Gaze FCA**
**Ymddiriedolwr**
**23 Gorffennaf 2025**

## Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol

### (Gan gynnwys y cyfrif incwm a gwariant) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm y Cronfeydd 2025 £ | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | **Cyfanswm y Cronfeydd 2024 £** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | | |
| Incwm gan weithgareddau elusennol | 1 | 4,598,737 | - | **4,598,737** | 3,972,012 | - | **3,972,012** |
| Rhoddion a chymynroddion | 2 | 1,296,150 | 1,066,191 | **2,362,340** | 1,321,839 | 1,272,617 | **2,594,456** |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 3 | 554,306 | 1,039 | **555,345** | 1,155,511 | 1,707 | **1,157,218** |
| Incwm gan fuddsoddiadau | | 131,594 | - | **131,594** | 125,243 | - | **125,243** |
| ***Cyfanswm yr incwm a'r gwaddolion*** | | **6,580,786** | **1,067,230** | **7,648,016** | **6,574,605** | **1,274,324** | **7,848,929** |
| **Gwariant** | | | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4 | 5,288,864 | 1,153,448 | **6,442,312** | 5,240,473 | 1,426,548 | **6,667,021** |
| Gwariant ar godi arian | 5 | 571,276 | | **571,276** | 770,534 | - | **770,534** |
| ***Cyfanswm y gwariant*** | | **5,860,140** | **1,153,448** | **7,013,588** | **6,011,007** | **1,426,548** | **7,437,555** |
| ***Incwm/(gwariant) net cyn trosglwyddiadau*** | | **720,646** | **(86,218)** | **634,428** | **563,598** | **(152,224)** | **411,374** |
| Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd | | (65,409) | 65,409 | - | (62,602) | 62,602 | - |
| ***Incwm/(gwariant) net cyn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill*** | | **655,237** | **(20,809)** | **634,428** | **500,996** | **(89,622)** | **411,374** |
| **Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill** | | | | | | | |
| Elw/(colled) actwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | 17 | - | - | - | - | - | - |
| ***Symud net mewn cronfeydd*** | | **655,237** | **(20,809)** | **634,428** | **500,996** | **(89,622)** | **411,374** |
| **Cysoni Cronfeydd** | | | | | | | |
| ***Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen*** | | 3,186,899 | 131,571 | **3,318,470** | 2,685,903 | 221,193 | 2,907,096 |
| ***Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen*** | | **3,842,136** | **110,762** | **3,952,899** | **3,186,899** | **131,571** | **3,318,470** |

Mae'r holl symiau yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eraill ac eithrio'r rhai a nodir uchod.





# Datganiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Ymddiriedolaeth Crimestoppers

### Adroddiad yr archwilydd annibynnol ar y Datganiadau Ariannol Cryno

Mae'r datganiadau ariannol cryno sy'n cyd-fynd â hwn, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, yn deillio o ddatganiadau ariannol wedi'u harchwilio Ymddiriedolaeth Crimestoppers ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025. Mynegom farn archwilio ddiamod am y datganiadau ariannol hynny yn ein hadroddiad dyddiedig 15 Awst 2025. Nid yw'r datganiadau ariannol hynny, a'r datganiadau ariannol cryno, yn adlewyrchu effeithiau digwyddiadau a ddigwyddodd ar dyddiad ein hadroddiad ar y datganiadau ariannol hynny.

Nid yw'r datganiadau ariannol cryno yn cynnwys yr holl ddatgeliadau sy'n ofynnol dan "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer a Argymhellir, sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS 102)" (effeithiol o 1 Ionawr 2019). Felly, nid yw darllen y datganiadau ariannol cryno yn gallu cymryd lle darllen datganiadau ariannol archwiliedig Ymddiriedolaeth Crimestoppers.

### Cyfrifoldeb ymddiriedolwyr dros y Datganiadau Ariannol Cryno

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol cryno yn unol â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig ac argymhellion y SORP elusennau.

### Cyfrifoldeb yr Archwilydd

Ein cyfrifoldeb yw mynegi barn am y datganiadau ariannol cryno ar sail ein gweithdrefnau, a gynhaliwyd yn unol â Safon Archwilio Rhyngwladol (ISA) 810, "Ymgysylltiadau i Adrodd am Ddatganiadau Ariannol Cryno."

### Barn

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol cryno sy'n deillio o'r datganiadau ariannol archwiliedig ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr o Ymddiriedolaeth Crimestoppers ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 yn gyson, ym mhob ystyr perthnasol, gyda'r datganiadau ariannol hynny.

**David Hoose**
(Archwilydd Statudol Uwch)

dros ac ar ran Forvis Mazars LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac
Archwilydd Statudol
6 Sutton Plaza, Sutton Court Road,
Sutton, Surrey, SM1 4FS

Dyddiad: 15 Awst 2025

# Diolch i'n partneriaid a'n cefnogwyr

Mae ein gwaith yn dibynnu ar gymorth hollbwysig ymddiriedolaethau, sefydliadau, cymuned gorfodi'r gyfraith, a'n partneriaethau gyda'r sector cyhoeddus a masnachol.  Trwy rannu ein gwerthoedd, maent yn helpu i hyrwyddo proffil cyhoeddus ein helusen i gynulleidfaoedd newydd sy'n gallu cael budd o'n gwasanaeth unigryw.

### Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

- Ymddiriedolaeth Elusennol Beaverbrook
- Sefydliad Bestway
- Ymddiriedolaeth Elusennol Carew
- Ymddiriedolaeth City Bridge
- Cyngor Sir Durham
- Ymddiriedolaeth Elusennol Gilbert ac Eileen Edgar
- Cronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref
- Ymddiriedolaeth Ingram
- Ymddiriedolaeth Elusennol G M Morrison
- Ymddiriedolaeth Elusennol Peacock
- Sefydliad Percy Hedley
- Ymddiriedolaeth Elusennol Sylvia a Colin Shepherd
- Ymddiriedolaeth Elusennol Mr a Mrs T C S Haywood

### Partneriaethau

- Anker Technology (eufy)
- Cymdeithas Siopau Cyfleustra
- B&Q/Screwfix
- Bakers Basco
- Barnardo's Yr Alban
- Llu'r Ffiniau
- Cymdeithas Adloniant Sgrin Prydain (BASE)
- Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain
- Gwasanaethau Diogelwch Carlisle
- Centrica Plc
- Coastal Crime
- Criced Yr Alban
- Crime Stoppers Rhyngwladol
- Digital Ventures (Vivastreet)
- DPD
- Comisiwn Etholiadol
- Bwrdd Criced Cymru a Lloegr
- Asiantaeth yr Amgylchedd (Lloegr)
- EPC-UK
- ESRI UK
- Federation Against Copyright Theft (FACT)
- Safonau Bwyd Yr Alban
- Rheoleiddiwr Gwyddor Fforensig
- Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Gweithwyr (GLAA)
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
- Cyllid a Thollau EF
- HSBC
- Imabi
- Gwasanaeth Mewnfudo
- Sefydliad Safonau y Wasg Annibynnol
- Biwro Twyll Yswiriant
- Swyddfa Eiddo Deallusol
- Sector cyhoeddus Ynys Manaw
- Joint Maritime Security Centre (Port Safe)
- Liberty
- Link ATM
- Long Clawson Dairy
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Gweinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol
- Muller
- Gwasanaeth Cenedlaethol Gwrth-lygredd a Cham-drin
- Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Next
- Awdurdod Gwrth-dwyll GIG
- GIG Yr Alban
- Openreach
- Rail Delivery Group
- Retail Energy Code Company
- Ring
- Y Post Brenhinol
- Achub y Plant
- Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
- Sky
- Hufenfa De Arfon
- Sport Resolutions (UK Sport)
- Thames Water
- Tideway
- UK Anti-Doping
- UKAD
- Wm Morrison Supermarkets Limited

### Firestoppers gyda Gwasanaethau Tân ac Achub:

- Cleveland
- Swydd Durham a Darlington
- Swydd Derby
- Dwyrain Sussex
- Swydd Essex
- Manceinion Fwyaf
- Humberside
- Caint
- Swydd Nottingham
- De Swydd Efrog
- Tyne a Wear

### Codi Llais FRS gyda Gwasanaethau Tân ac Achub:

- Avon
- Swydd Bedford
- Cymbria
- Dorset a Wiltshire
- Swydd Gaerloyw
- Manceinion Fwyaf
- Humberside
- Swydd Lincoln
- Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Norfolk
- Gogledd Swydd Efrog
- Swydd Northampton
- De Cymru
- Suffolk
- Surrey

### Llinellau Uniondeb yr Heddlu:

- Swydd Bedford
- Swydd Caergrawnt
- Swydd Gaer
- Swydd Derby
- Dyfnaint a Chernyw
- Dyfed Powys
- Gibraltar
- Swydd Gaerloyw
- Manceinion Fwyaf
- Guernsey
- Swydd Hertford
- Ynys Manaw
- Jersey
- Caint
- Swydd Gaerlŷr
- Glannau Mersi
- Heddlu Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Gogledd Cymru
- Northumbria
- Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon
- De Cymru
- Swydd Stafford
- Dyffryn Tafwys
- Swydd Warwig
- Gorllewin Mersia
- Gorllewin Swydd Efrog
- Wiltshire

### Safonau Masnach:

- Manceinion Fwyaf
- Caint a Medway
- Cymru



# Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol

## Cyfarwyddwyr Ymddiriedolwyr

### Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

- Arglwydd Ashcroft KCMG PC

### Ymddiriedolwyr

- *Ms Angela Entwistle – Dirprwy Gadeirydd
- Arglwydd Choudrey CBE SI PK
- *Mr Peter Clarke CVO OBE QPM
- Ms Ceris Gardner
- Mr Peter Gaze FCA
- Mr Bill Griffiths CBE BEM QPM
- Mr Stewart Harris FCA
- Mr Martin Hewitt CBE QPM
- Ms Suzanne Jacob OBE
- *Mr Michael Laurie CBE
- *Mr Barry Mizen MBE (ymddiswyddodd 4 Tachwedd 2024)
- Mr Nick Ross CBE
- Mr Stephen Rubin OBE
- Syr Paul Stephenson QPM

### Bwrdd Cynghori

Mae Cyfarwyddwyr Ymddiriedolwyr a swyddogion y nodir * wrth ymyl eu henw yn gwasanaethu ar y Bwrdd Cynghori, ynghyd â'r canlynol:

- Mr Phil O'Shea
  Dirprwy Gadeirydd ac Aelod AB dros Ogledd Iwerddon a'r Ynysoedd (Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel)
- Miss Jane Antrobus
  Cynrychiolydd Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr
- Mr Bill Cullen
  Cynrychiolydd Rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Mrs Nina Dawes
  Cynrychiolydd Rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Mr John Dobbin
  Cynrychiolydd Swydd Efrog a Humberside
- Mr Jonathan Drake
  Cynrychiolydd Cymru
- Mr Jonathan Hamill
  Cynrychiolydd Rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr
- Mr Stuart Rawlins
  Cynrychiolydd Rhanbarth Dwyrain Lloegr
- Mr Peter Rolington
  Cynrychiolydd Rhanbarth De Lloegr

## Swyddogion Uwch

- *Mr Mark Hallas OBE,
  Prif Weithredwr
- *Mr Stephen Mann,
  Cyfarwyddwr Cyllid, Ysgrifennydd Cwmni
- *Mr Michael Duthie,
  Cyfarwyddwr Gweithrediadau
- *Ms Kate Johnson
  Cyfarwyddwr Datblygu Busnes
- *Ms Karen Ogborn,
  Pennaeth y Staff

## Bancwyr

The Royal Bank of Scotland plc
280 Bishopsgate, Llundain, EC2M 4RB

## Archwilwyr

Forvis Mazars LLP
6 Sutton Plaza, Sutton Court Road, Sutton, Surrey, SM1 4FS

## Cyfreithwyr

Bates Wells,
10 Queen Street Place, Llundain, EC4R 1BE

## Statws

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Crimestoppers yn wreiddiol gan Weithred Ymddiriedolaeth ar 20 Hydref 1986 ac fe'i cofrestrwyd gan y Comisiwn Elusennau, a ddaeth i rym ar 4 Tachwedd 1987.  Ar 1 Ebrill 2005, trosglwyddwyd yr ymgymeriad cyflawn dros Ymddiriedolaeth Crimestoppers i gwmni cyfyngedig trwy warant, Rhif Cwmni 05382856, sy'n elusen gofrestredig ei hun, Rhif 1108687 (Lloegr) a Rhif SC037960 (Yr Alban).  Mae swyddfa gofrestredig yr elusen yn Sedulo London, Swyddfa 605, Albert House, 256-260 Old Street, Llundain, EC1V 9DD

Y brif swyddfa yw Blwch Post 324, Wallington, SM6 6BG.

# Mae'n cymryd 5 munud i chi ddweud wrthym yr hyn yr ydych yn ei wybod.



**Mae modd cysylltu â ni 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn, ac mewn dros 140 o ieithoedd.**

**Os byddwch yn cysylltu â'n helusen dros y ffôn neu ar-lein, byddwch wastad yn aros yn hollol ddienw. Bob tro.**

**crimestoppers-uk.org**

**CrimeStoppers.**

**0800 555 111**

100% anonymous. Always.